



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026



RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.



CYNNWYS

TUDALEN

PENNOD 1 - CRYNODEB Y CYFARWYDDWR **3**

PENNOD 2 - CYD-DESTUN **6**

- a) Arweinyddiaeth 9
- b) Gweithlu 10
- c) Adnoddau Ariannol 12

PENNOD 3 - ASESU CYFLAWNIAD **13**

- a) Pobl 14
- b) Atal 25
- c) Partneriaeth ac Integreiddio 43
- d) Llesiant 47
- e) Ein Blaenoriaethau Gwasanaethau
Cymdeithasol 2025/26 59

PENNOD 4 - GWYBODAETH ARALL **61**

- a) Arolygu ac adolygiadau 62
- b) Cwynion a sylwadau 63
- c) Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth 65
- d) Rhestr termau 65



RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

PENNOD
1

CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi darparu Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddangos sut mae ein gwaith wedi hyrwyddo a gwella lles y bobl hynny rydyn ni'n eu cefnogi.

Mae'r adroddiad yma'n adlewyrchu blwyddyn o alw mawr a chymhlethdod ynghyd â chyflawniad cadarn, a diwygio parhaus ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod 2025/26, parhaodd ein gwasanaethau i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn Rhondda Cynon Taf, gwella deilliannau i blant, oedolion a chynhalwyr, a bwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid y ffordd y mae cymorth yn cael ei gynllunio a'i ddarparu. Gwnaethom ni hyn yng nghyd-destun pwysau ariannol sylweddol, cymhlethdod cynyddol o ran anghenion, heriau o ran y gweithlu ac amgylchedd polisi cenedlaethol sy'n newid. Er gwaethaf y pwysau yma, rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau cyflawniad cadarn mewn nifer o feysydd allweddol. Parhaodd ein dull ataliol i wneud gwahaniaeth, a llwyddon ni i wneud cynnydd wrth ail-lunio ein gwasanaethau i sicrhau eu bod nhw'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn rhoi mwy o bwyslais ar ddeilliannau ac yn fwy cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion a'n rhwymedigaethau statudol.

Mae ein Gwasanaethau i Oedolion wedi parhau i fwrw ymlaen â'n rhaglen fuddsoddi mewn llety gofal gwerth miliynau o bunnoedd. Mae amrywiaeth o ddatblygiadau llety gofal ychwanegol a llety gofal ar gyfer pobl â dementia newydd yn cael eu hadeiladu ledled Rhondda Cynon Taf. Parhaodd taliadau uniongyrchol i gynyddu, ac chafodd y farchnad gofal leol ei hehangu trwy gyflwyno micro-fentrau a dewisiadau amgen yn y gymuned. Mae buddsoddi mewn mesurau atal yn parhau i fod yn gryfder clir. Mae'r gwasanaeth ail-alluogi, technoleg gynorthwyol ac offer cymunedol i gyd wedi helpu pobl i gynnal neu adennill annibyniaeth, atal twf mewn anghenion ac osgoi gofal hirdymor diangen.

Parhaodd gwasanaethau cymorth yn y cartref a llwybrau rhyddhau cleifion o'r

ysbyty i wneud cynnydd da, gan leihau oedi a helpu pobl i ddychwelyd i'w cartrefi yn ddiogel ac yn gyflym. Arweiniodd newidiadau i drefniadau comisiynu gofal yn y cartref at welliant o ran capasiti ein gwasanaethau a chafwyd llai o oedi wrth gael mynediad at ofal a chymorth. Serch hynny, mae angen i ni weithio gyda'r darparwyr a gomisiynwyd o hyd i fynd i'r afael â phocedi o anfonlonrwydd ynghylch cyfathrebu, newidiadau mynych mewn gweithwyr gofal, a phryderon ynghylch dibynadwyedd a pharodrwydd staff.

Yn y Gwasanaethau i Blant, fe wnaethon ni barhau i weithio'n agos gyda theuluoedd a phartneriaid. Llwyddon ni i gynnal gostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, gan barhau â thuedd gadarnhaol tymor hwy a gwella ein sefyllfa genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu ein Strategaeth Atal a'n Model Ymarfer ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i atal twf mewn anghenion gofal. Mae gwaith ailuno wedi'i parhau'n gryf, a pharhaodd gwasanaethau ataliol fel Teuluoedd Cydnerth a Magu i gyflawni deilliannau cadarnhaol i rai o'n rhieni, plant a theuluoedd mwyaf agored i niwed. Derbyniodd mwy o blant cymorth diogel o fewn eu teuluoedd neu rwydweithiau teuluol ehangach. Dim ond mewn achosion lle nad oes dewis diogel arall ar eu cyfer y derbyniodd plant ofal gan y Cyngor.

Cafodd yr Addewid Rhianta Corfforaethol ei gymeradwyo yn 2024, a pharhaodd y gwaith i gyflawni ei addewidion i bobl ifainc. Parhaodd cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd drwy ein rhaglenni Camu i'r Cyfeiriad Cywir a GofaliWaith, a chafwyd deilliannau cadarnhaol o ran ennill cymwysterau a threfnu lleoliadau gwaith.

Roedd darparu digon o deuluoedd maeth, cartrefi i blant a llety â chymorth yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2025/26, ochr yn ochr â'n ffocws ar gadw pobl ifainc yn agos at eu cartrefi. Ar hyn o bryd, mae 73% o blant sy'n derbyn gofal yn byw yn Rhondda Cynon Taf, sy'n adlewyrchu'r cartrefi i blant newydd sydd wedi'u datblygu a mwy o leoliadau lleol. Er hyn, mae'r Cyngor yn dal i ddibynnu ar leoliadau heb eu cofrestru mewn rhai achosion o ganlyniad i'r nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Er gwaethaf ymdrechion parhaus, gostyngodd niferoedd y rhieni maeth yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r duedd ehangach ledled Cymru. Fe wnaethon ni hefyd barhau i ddatblygu ein cartrefi i blant sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.

Er bod y gweithlu yn parhau i gynrychioli her allweddol, fe wnaethon ni barhau i wella sgiliau a phrofiadau ein staff, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw, drwy strategaethau uchelgeisiol ar gyfer y gweithlu ym mhob rhan o'r Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant. Yn 2025/26, gwnaethon ni rhagor o gynnydd o ran recriwtio a chadw staff, yn enwedig ym maes gwaith cymdeithasol i blant. Fe wnaethon ni barhau i ymgorffori ein Hacademi Gwaith Cymdeithasol ac ehangu'r buddsoddiad yn ein cynllun "Meithrin ein Talent ein Hunain" sydd eisoes wedi'i sefydlu i gefnogi rhagor o ymarferwyr gofal cymdeithasol i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol. Fe wnaethon ni hefyd barhau i fuddsoddi mewn datblygu'r gweithlu, llais ymarferwyr, lles, capasiti o ran y Gymraeg,

arfer gwrth-hiliol a ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys dulliau digidol i leihau'r baich gweinyddol a gwella cynhyrchiant.

Mae pwysau ariannol yn parhau i fod yn sylweddol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu gorwariant a hynny o ganlyniad i alw mawr, cymhlethdod a phwysau o ran costau darparwyr, yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol ehangach ym myd llywodraeth leol. Bydd y pwysau yma'n parhau yn ystod 2026/27 a thu hwnt, yn enwedig mewn perthynas â gofal rydyn ni'n ei gomisiynu, digonolrwydd lleoliadau i blant, gweithredu'r polisi cenedlaethol ar ddileu elw o faes gofal plant, a phwysau chwyddiant ehangach ar draws y system gofal cymdeithasol.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn glir ac yn cynnwys: cryfhau mesurau ymyrraeth gynnar ac atal, cyflawni arloesedd digidol, gwella mynediad at wybodaeth a chynghor, cynyddu dewis ac annibyniaeth, cyflwyno atebion cynaliadwy mewn perthynas â'r gweithlu, rheoli pwysau ariannol, a datblygu a chynyddu digonolrwydd lleol.

At ei gilydd, mae adroddiad blynyddol eleni unwaith eto'n dangos gwasanaeth sy'n uchelgeisiol, yn fyfyrion ac yn benderfynol. Rydyn ni'n glir ynglŷn â'r pwysau rydyn ni'n eu hwynebu, yn onest ynglŷn â'r meysydd y mae'n rhaid i ni eu gwella, ac yn hyderus o ran datblygiad y gwasanaethau cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf.

Rydw i'n falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, y straeon newyddion da a'r astudiaethau achos, sy'n ein hatgoffa o'r effaith gadarnhaol rydyn ni'n ei chael ar fywydau rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn Rhondda Cynon Taf. Ni fyddai'r uchod wedi bod yn bosibl heb ymroddiad, cydnherthedd ac ymdrechion aruthrol ein gweithlu gwasanaethau cymdeithasol ac rydw i am ddiolch i bawb sydd wedi sicrhau bod ein trigolion wedi derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw. Rydw i'n gobeithio y bydd yr adroddiad yma'n dangos canlyniadau eu gwaith caled a diflino dros y flwyddyn ddiwethaf.

Neil Elliott

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol



CYD-DESTUN

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026

Mesurau Cyflawniad Cenedlaethol

Gwasanaethau Oedolion

AD/001: Cyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud ag oedolion a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn 2025/26 oedd **14,869** – cynnydd o 18.7% o 12,522 o gysylltiadau yn 2024/25.

AD/002: Rhoddwyd cyngor neu gymorth i **4,821** o'r cysylltiadau yma (32% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2025/26, o'i gymharu â 6,385 (51% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2024/25. Bu gostyngiad o 25.6% yng nghyfanswm y cysylltiadau a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf a gafodd gyngor neu gymorth.

AD/004: Cynhaliwyd **4,484** o asesiadau newydd mewn perthynas ag oedolion yn 2025/26 - gostyngiad o 8.7% o'i gymharu â 4,987 yn 2024/25.

AD/005: O'r asesiadau newydd a gynhaliwyd mewn perthynas ag oedolion:

- Roedd angen cynllun gofal a chymorth i ddiwallu anghenion **1,471** (33%) o'r bobl a aseswyd ac sydd ag anghenion cymwys – cynnydd o 0.4% o 1,465 yn 2024/25 (lle roedd angen cynllun gofal a chymorth ar 27.6% o unigolion).
- Roedd modd diwallu anghenion **2,567** (57%) o'r bobl a aseswyd ac sydd ag anghenion cymwys drwy ddulliau eraill – gostyngiad o 12% o'i gymharu â 2,931 yn 2024/25 (diwallwyd anghenion 57.9% drwy ddulliau eraill yn ystod y flwyddyn yma).
- Nid oedd gan **446** (10%) o'r bobl a aseswyd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu - gostyngiad o 13.4% o 515 yn 2024/25 (nodwyd bod 14.4% o'r bobl a aseswyd heb unrhyw angen cymwys yn ystod y flwyddyn yma).

AD/012: Roedd gan **4,195** o oedolion gynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2026 (gostyngiad o 0.4% o 4,210 yn 2024/25).

Gwasanaethau i Blant

CH/001: Cyfanswm y cysylltiadau a oedd yn ymwneud â phlant a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn 2025/26 oedd **27,406** – gostyngiad o 3.4% o'i gymharu â'r 28,372 o gysylltiadau a dderbyniwyd yn 2024/25.

CH/002: Rhoddwyd cyngor neu gymorth i **10,337** o'r cysylltiadau yma (38% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2025/26, o'i gymharu â 11,662 (41.1% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2024/25. Gwelwyd gostyngiad o 11% yng nghyfanswm y cysylltiadau a gafodd cyngor neu gymorth dros y flwyddyn ddiwethaf.

CH/006: Cynhaliwyd **5,313** o asesiadau newydd mewn perthynas â phlant yn 2025/26 - gostyngiad o 5.2% o'i gymharu â 5,605 yn 2024/25.

CH/007: O'r asesiadau newydd a gynhaliwyd mewn perthynas â phlant:

- a. Roedd angen cynllun gofal a chymorth ar **555** with eligible needs (10.4%) were only able to be met with care and support plan – a 27.5% reduction from 766 in 2024/25 (13.7% met with care and support plan).
- b. Roedd modd diwallu anghenion **3,689** o'r bobl a aseswyd ac sydd ag anghenion cymwys (69.4%) drwy ddulliau eraill – cynnydd o 10.6% o'i gymharu â 3,336 yn 2024/25 (diwallwyd anghenion 59.5% o'r bobl a aseswyd drwy ddulliau eraill).
- c. Nid oedd gan **1,069** (20%) o'r bobl a aseswyd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu - gostyngiad o 28.9% o 1,503 yn 2024/25 (26.8% heb unrhyw angen cymwys).

CH/015: Roedd gan **1,846** o blant gynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2026 (gostyngiad o 9.2% o'i gymharu â 2,034 yn 2024/25).

Mae Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o garfan Uwch Reolwyr y Cyngor ochr yn ochr â Phrif Weithredwr y Cyngor a Chyfarwyddwyr Corfforaethol eraill. Mae strwythur rheoli'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i'w gweld isod.

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Neil Elliott

**Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
i Oedolion**

Sian Nowell

**Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
i Blant**

Annabel Lloyd

Mae arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn flaenoriaeth glir ar gyfer y Cyngor ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan y Cabinet, yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gofal Cymdeithasol ac Uwch Reolwyr y Cyngor.

Mae gan y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant strategaethau a chynlluniau cyflawni clir, sydd wedi'u llywio gan ein gwerthusiad hunanwasanaeth blynyddol, gan gyfrannu at amcan lles 'Pobl a Chymunedau' Cynllun Corfforaethol y Cyngor, "Gweithio gyda'n Cymunedau: 2024-2030".

Parhaodd Byrddau Trawsnewid ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant i oruchwylio newid yn ein gwasanaethau, er mwyn lleihau pwysau ariannol a chefnogi gwasanaethau mwy cynaliadwy. Mae'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei dwyn i gyfrif drwy adolygiadau cyflawniad a sicrhau ansawdd misol, trafodaethau rheolaidd gydag Aelodau'r Cabinet a staff uwch, adroddiadau i'r Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, a thrwy ymgysylltu â staff.

Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflogi 1,591 o staff, gan gynnwys staff asiantaeth, ar 31 Mawrth 2026:

	Gwasanaethau i Blant	Gwasanaethau i Oedolion
Cyfanswm nifer y staff	669	922
Cyfradd swyddi gwag	18.5%	20.9%
Trosiant staff	45 yn gadael (6.7%)	105 yn gadael (11.4%)

Er mwyn bodloni ein gofynion statudol a chynnal gwasanaethau'n ddiogel, manteision ni ar gymorth staff asiantaeth a threfniadau goramser i lenwi swyddi gwag a chyflawni llwythi gwaith tra bod gwaith recriwtio parhaol yn parhau. Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol. Yn 2025/26, roedd ein gwaith mewn perthynas â'n gweithlu wedi parhau o dan ein strategaethau ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant. Cafodd Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Blant ei hadolygu a'i hail-lunio eleni a datblygwyd Cynllun Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Blant 2025–2030 diwygiedig. Dangosodd adborth a data dros y flwyddyn ddiwethaf fod y gwaith yma'n cael effaith gadarnhaol.

Parhaodd cyfradd y swyddi gweithwyr cymdeithasol gwag yn y Gwasanaethau i Blant i ostwng o 44% ym mis Medi 2023 i 29.3% ym mis Ebrill 2025 a 25.4% ym mis Mawrth 2026. Arhosodd lefelau trosiant

staff yn sefydlog, gyda 18 o ddechreuwy newydd a 16 o bobl yn gadael y gwasanaeth yn 2025/26. Mae llwyddiant ein Hacademi Gwaith Cymdeithasol wedi lleihau nifer y swyddi gwaith cymdeithasol gwag yn y Gwasanaethau i Blant yn ystod y flwyddyn. Mae swyddi bellach yn denu ymgeiswyr mewnol ac allanol cryf.

Fe wnaethon ni barhau i fuddsoddi yn ein cynllun “Meithrin Ein Talent Ein Hunain”, sy'n noddi staff y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant i gwblhau Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored ac sy'n gwarantu rôl iddyn nhw mewn gwaith cymdeithasol wrth gofrestru. Daeth dau aelod o staff a gafodd eu noddi yn weithwyr cymdeithasol cymwys yn 2025 ac maen nhw bellach yn gweithio yn rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol.

O ganlyniad i ddulliau cyfathrebu'r Gwasanaethau i Blant, fe wnaethon ni barhau i glywed llais yr ymarferydd. Tynnodd Adroddiad Blynyddol Llais yr Ymarferydd 2025 sylw at yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a meysydd lle mae angen i ni wella, gan helpu i lunio'r ffordd rydyn ni'n cynllunio ein gweithlu.

Beth rydyn ni'n ei wneud yn dda?

- **Carfanau a Rheolwyr Cefnogol:** Y thema sy'n codi fwyaf aml yn yr adborth oedd natur gefnogol y carfanau yn y Gwasanaethau i Blant. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod nhw'n cydweithio'n dda â'u carfanau ac maen nhw'n gallu ceisio cymorth ac arweiniad yn hawdd pan fo angen.
- **Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd:** Roedd hon yn thema gyffredin ym mhob un o'r mecanweithiau cyfathrebu. Mae ymarferwyr yn mwynhau gweithio gyda phlant, pobl ifainc a theuluoedd ar draws RhCT i gyflawni deilliannau cadarnhaol.
- **Cyfathrebu:** Mae ymarferwyr yn parhau i deimlo eu bod nhw'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn teimlo'n rhan o ddatblygiadau gwasanaeth, trwy ystod o fecanweithiau cyfathrebu. Dywedodd staff eu bod nhw'n teimlo fel bod pobl yn gwrandao arnyn nhw. Fe sonion nhw hefyd fod cyfathrebu â phartneriaid a theuluoedd yn gadarnhaol.
- **Datblygu'r Gwasanaeth:** Dangosodd adborth fod newidiadau diweddar i'r gwasanaeth, gan gynnwys cyflwyno'r Model Ymarfer, wedi cael derbyniad da. Mae staff yn gwerthfawrogi'r weledigaeth glir a'r ymrwymiad cryf i yrru'r newidiadau yma yn eu blaenau.
- **Hyfforddiant a Datblygiad:** Gwnaeth llawer o staff sylwadau cadarnhaol am y cyfleoedd i hyfforddi a datblygu maen nhw'n eu cael yn RhCT. Soniodd y staff fod digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, ac i symud ymlaen o fewn y gwasanaeth.
- **Gweithio Hyblyg a Hybrid:** Dangosodd adborth gan staff eu bod nhw'n mwynhau cydbwysedd gweithio hybrid. Nododd llawer o staff a oedd yn ymgymryd â'r cynllun peilot Gweithio Hyblyg Gwell hefyd fod y trefniant gwaith newydd yma wedi bod yn gadarnhaol.

Gwella Profiad y Gweithiwr

• Pwysau Gwaith ac Adnoddau

Dyma'r thema a ddaeth i'r amlwg fwyaf aml yn yr adborth. Tynnodd ymarferwyr sylw at y ffaith bod gofynion llwyth gwaith cynyddol, cymhlethdod llwyth achosion a phrinder staff yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu swyddi'n effeithiol. Mynegodd staff fod angen adnoddau ychwanegol ar garfanau i fynd i'r afael â'r heriau yma, atal straen a blinder a chreu lle i fyfrio.

• Cyfathrebu

Er bod llawer o ymarferwyr yn teimlo bod cyfathrebu ar draws y gwasanaeth yn gadarnhaol a'u bod nhw'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn gyson, roedd eraill yn teimlo bod angen datblygu rhai meysydd o hyd. Dyma'r meysydd:

- Cyfathrebu ar draws carfanau, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth.
- Cyfathrebu amserol ynglŷn â newidiadau i wasanaethau.

• Newidiadau Sefydliadol

Roedd themâu allweddol i'w gweld yn yr adborth, gan gynnwys staff yn teimlo'n bryderus am yr holl newidiadau yn y Gwasanaethau i Blant o ran ailstrwythuro a'r cynlluniau peilot.

• Trefniadau gweithio'n hyblyg

Er bod ymarferwyr yn cydnabod ein bod ni'n treialu trefniadau amgen mewn rhai carfanau, thema allweddol oedd eu bod am i ni gyflwyno'r rhain yn ehangach ar draws y gwasanaeth. Soniodd staff hefyd y bydden nhw'n hoffi i ni ystyried patrymau gwaith amgen a rhagor o swyddi rhan-amser.

• Arall

- Dod o hyd i ofod swyddfa addas ledled RhCT drwy'r system cadw lle.
- Mynediad at adnoddau i gefnogi plant a theuluoedd a gwybodaeth am adnoddau o'r fath.
- Rhagor o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff profiadol.

Mae'r dulliau cyfathrebu yma'n cefnogi llais a lles ymarferwyr ac yn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw gyfathrebu. Rydyn ni'n cydnabod y pwysau sydd ar staff, gan gynnwys trawma eilaidd, a byddwn ni'n parhau i gyfathrebu â'n staff i flaenoriaethu eu lles a'u cydnherthedd.

Parhaodd y Cyngor i wynebu pwysau ariannol sylweddol ym meysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan adlewyrchu'r heriau y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu.

Roedd 2025/26 unwaith eto yn flwyddyn ariannol heriol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a hynny yng nghyd-destun galw parhaus, achosion mwy cymhleth, yr argyfwng costau byw a chwyddiant. Mae hyn oll yn cynyddu'r pwysau ar ein darparwyr gofal a gomisiynwyd a chostau gwasanaethau.

Cyllideb net y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd £202.7 miliwn. Arweiniodd costau gofal uniongyrchol a lleoli uwch ar draws y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant at orwariant o £2.173 miliwn, er ein bod ni wedi defnyddio cyllid untro (cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi) i reoli'r risg o gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Yn 2025/26, helpodd grantiau cenedlaethol i reoli'r pwysau yma a chefnogi datblygiad gwasanaethau, tra bod cyllid cyfalaf wedi cefnogi gwaith moderneiddio llety â chymorth yn y ddau wasanaeth. Cefnogodd trefniadau rheoli materion ariannol cryf y cynllun ariannol tymor canolig a'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd. Bydd gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, gan gynnwys yr

ymrwymiad i ddileu elw mewn gofal preswyl a gofal maeth i blant erbyn 2030, yn cyflwyno her sylweddol i'r Gwasanaethau i Blant. Mae grant dileu elw Llywodraeth Cymru yn sylweddol is na chostau tebygol y Cyngor, gan greu risg ariannol a'r angen i ddiwygio cynlluniau, gan effeithio ar ein cynnydd tuag at ddileu elw.

Mae cynnal cynnydd cynaliadwy mewn ffioedd ar gyfer gofal a gomisiynwyd yn risg allweddol yn y Gwasanaethau i Oedolion. Mae hyn wedi'i waethygu gan y diffyg cyllid ar gyfer gofal nyrsio a chyllid Gofal Iechyd Parhaus (GIP) sy'n cael ei ddarparu gan yr adran Iechyd. Mae hyn yn parhau i roi pwysau ar y system gofal cymdeithasol a hyfywedd ariannol y farchnad cartrefi gofal. Does dim modd i hyn barhau.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflawni arbedion eto yn 2026/27, a bydd angen nodi rhagor o arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2027/28 a thu hwnt. Bydd hyn yn parhau i fod yn heriol gan ystyried y galw mawr am wasanaethau a chymhlethdod cynyddol.

Gwariant Ataliol yn Rhondda Cynon Taf: Atal gwahanu rhiant a'u babanod

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf a'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) RhCT yn cydweithio i ddeall yn well sut mae arian yn cael ei wario ar atal - a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.

Menter sy'n cael ei chefnogi gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd i helpu'r Cyngor i fod yn fwy 'gweithredol o ran ymchwil' yw'r CYBI. Ei nod yw creu diwylliant lle mae penderfyniadau am iechyd a lles yn seiliedig ar dystiolaeth, a lle mae gan gymunedau lais ar sut mae modd defnyddio ymchwil i leihau anghydraddoldebau iechyd a sut y dylid mynd ati i wneud hynny.

Mae adroddiad cyntaf prosiect 'Gwariant Ataliol' y CYBI yn canolbwyntio ar atal gwahanu rhiant a'u babanod - gan archwilio sut y mae modd i wariant ataliol wneud gwahaniaeth i deuluoedd a nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos gwerth hirdymor.

Mae tua £1.17 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn ar atal achosion o wahanu rhieni a'u babanod, gyda thua 55% o hyn yn cael ei gyfeirio at atal trydyddol - ymyrryd i atal problem rhag gwaethygu neu ddigwydd eto.

Roedd ein hymchwil yn canolbwyntio ar wasanaeth Magu, sef llwybr integredig ar gyfer unigolion beichiog a'u teuluoedd, sydd wedi'i gynllunio i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae canfyddiadau cynnar yn dangos bod Magu yn helpu i atal achosion o wahanu rhiant a'u babanod, yn gwella lles teuluol ac mae ganddo'r potensial i greu arbedion cost sylweddol yn y tymor hir - er bod angen systemau data gwell i ddangos dystiolaeth lawn o'i effaith.

Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#). Mae gyda ni fersiwn [hawdd ei darllen](#) hefyd



ASESU CYFLAWNIAD

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026

Mae'r adran yma'n darparu hunanasesiad o'n cyflawniad yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant yn erbyn wyth safon ansawdd ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Lles.

Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:

“Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt”

“Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir”

Mae'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â phobl roedden ni wedi bwriadu eu cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant yn 2025/26, ac rydyn ni wedi llwyddo eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yma, i'w gweld yn y tabl isod.

Blaenoriaethau rydyn ni wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

Datblygu amrywiaeth o gyfleoedd yn ystod y dydd a gwasanaethau oriau dydd i bobl ag anghenion cymwys. Ein nod allweddol yw cynorthwyo pobl i gael cyfleoedd cymunedol prif ffrwd. Serch hynny, efallai na fydd hyn yn briodol nac yn hygyrch i bobl ag anghenion mwy cymhleth. Ein cyfrifoldeb ni fydd darparu neu gomisiynu ystod o gyfleoedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni a sicrhau ein bod ni'n hwyluso'r cysylltiad rhwng pobl â'r gwasanaeth sy'n gallu eu helpu nhw i gyflawni'r deilliannau gorau.

Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau i Blant i sicrhau bod y trefniadau pontio i bobl ifainc a'u rhieni/gwarcheidwaid i Wasanaethau i Oedolion yn brofiad cadarnhaol sy'n cefnogi dilyniant i annibyniaeth ac ymreolaeth yn briodol.

Gwasanaethau Seibiant ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu - 'Fy Seibiant i, Fy Newis i'

Mae Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwasanaeth oriau dydd 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' a'r model byw â chymorth 'Fy Nghartref i, Fy Newis i' a luniwyd ar y cyd bellach ar waith. Mae'r dull yma bellach yn ymestyn i ofal seibiant drwy 'Fy Seibiant i, Fy Newis i'. Mae'r cynnig seibiant presennol yn parhau i fod yn seiliedig ar welyau i raddau helaeth ac yn draddodiadol, gan gyfyngu ar ddewis, rheolaeth ac opsiynau mwy hyblyg i bobl ag anableddau dysgu.

Ym mis Mehefin 2025, trafododd y Cabinet y model seibiant a luniwyd ar y cyd a chymeradwyodd ymgynghoriad wyth wythnos gyda rhanddeiliaid ehangach. Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth eang, ochr yn ochr â phryderon dealladwy am yr effaith ar unigolion. Cymeradwyodd y Cabinet y model ym mis Hydref 2025, ac mae'r broses weithredu bellach yn cael ei gyd-gynhyrchu gan roi ystyriaeth lawn i anghenion, risgiau a dyheadau pobl.

Fe wnaethon ni ehangu'r cynllun Cysylltu Bywydau i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion fwynhau seibiant hirdymor a chymorth fesul sesiwn yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn darparu 20 lleoliad hirdymor, 16 lleoliad seibiant ac 16 gwasanaeth cymorth fesul sesiwn.

Cynllun rhanbarthol sydd wedi ennill gwobrau yw'r cynllun Cysylltu Bywydau yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gweithredu ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, gan gynnig cymorth mewn cartrefi cynhalwyr a chymunedau lleol.

Mae Cysylltu Bywydau yn cynnig dewis arall wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar y teulu, yn lle cymorth a llety traddodiadol, gan helpu pobl i gynnal annibyniaeth, perthnasoedd a chysylltiadau cymunedol. Yn rhan o'r cynllun Cysylltu Bywydau, mae oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth yn cael ei baru â chynhaliwr cydnaws sy'n rhannu eu bywyd cartref, eu bywyd teuluol a'u bywyd cymunedol i helpu'r unigolyn i feithrin annibyniaeth, cyfeillgarwch a chysylltiadau lleol. Mae cynhalwyr yn cael eu recriwtio, eu hasesu, eu hyfforddi a'u cefnogi'n ofalus. Mae hyblygrwydd cynllun Cysylltu Bywydau yn caniatáu i gymorth gael ei deilwra i ystod eang o bobl ac amgylchiadau, fel a ganlyn:

- **Cymorth Hirdymor:** llety a chymorth parhaus yng nghartref cynhaliwr.
- **Cymorth Seibiant:** seibiannau byr, yn aml gyda'r un cynhaliwr.
- **Cymorth Tymor byr:** cymorth am amser cyfyngedig, gan gynnwys cymorth i osgoi derbyn unigolyn i'r ysbyty neu yn dilyn rhyddhau unigolyn o'r ysbyty.
- **Cymorth fesul sesiwn:** cymorth bob awr yng nghartref neu gymuned y cynhaliwr.
- **Cymorth Mewn Argyfwng:** llety a chymorth ar fyr rybudd.

Astudiaeth Achos: Lleoliad Brys y Cynllun Cysylltu Bywydau

Cafodd Unigolyn A, dyn 19 oed ag awtistiaeth ac anableddau dysgu sylweddol, gymorth gan y Gweithiwr Cymdeithasol - Cyfnod Pontio. Ym mis Rhagfyr eleni, doedd ei fam ddim yn gallu gofalu amdano mwyach. O ganlyniad i hyn roedd angen trefnu gofal seibiant brys wythnos cyn y Nadolig. Doedd y gwasanaethau seibiant mewnol ddim yn gallu ymateb ar fyr rybudd, felly cafodd atgyfeiriad ei gyflwyno i'r cynllun Cysylltu Bywydau, a ymatebodd yn gyflym gan sicrhau bod lleoliad ar gael fel cynllun wrth gefn.

Sicrhaodd y cynllun Cysylltu Bywydau leoliad brys addas a fyddai'n para bythefnos. Rhoddodd hyn y seibiant yr oedd wir ei angen ar ei fam a'i galluogi hi i aildechrau gofalu amdano gartref. Parhaodd cynhalwyr y cynllun Cysylltu Bywydau i gyfathrebu â'i fam mewn modd cefnogol drwy gydol y cyfnod yma, ac roedd hyn yn bwysig i'w les.

Cynllun Peilot - Hwb Dementia dros dro

Ariannwyd y cynllun peilot hybiau dementia dros dro gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a'i gyflwyno ar y cyd â'r Cydlynwyr Cymunedol sydd wedi'u hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd y cynllun yn darparu cymorth cynnar, ataliol, yn y gymuned ochr yn ochr â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol.

Creodd y cynllun peilot hybiau dementia mewn tair llyfrgell ganolog ledled Rhondda Cynon Taf i wella cymorth i bobl â dementia, eu teuluoedd a'u cynhalwyr. Roedd y sesiynau galw heibio tair awr bob pythefnos, oedd yn addas i bobl â dementia, yn sefydlu'r llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol gweladwy a dibynadwy lle mae modd manteisio ar gymorth sy'n ymwneud â dementia. Roedd yr hybiau'n cynnig gwybodaeth hygyrch, cyngor, gweithgareddau lles, cysylltiadau cymdeithasol a chyfeirio at wasanaethau eraill. Roedden nhw hefyd yn cynnal cynllun benthyca ar gyfer offer sy'n addas i bobl â dementia a chymhorthion i'r synhwyrau a'r cof.

Darparodd Nyrsys Eiddilwch a Charfan y Cof yn y Bwrdd Iechyd ganllawiau clinigol, gwybodaeth ôl-ddiagnostig a chyngor ar reoli iechyd, diogelwch a lles gartref. Helpodd Cydlynwyr Cymunedol y Cyngor, Presgripsiynwyr Cymdeithasol Interlink, Cymdeithas Alzheimer, Age Connects Morgannwg, Gofal a Thrwsio, Age Cymru a Sight Life bobl i gael mynediad at gymorth cymunedol, cymorth o ran tai, cymorth gydag amhariad ar y synhwyrau a budd-daliadau ehangach.

Nod y cynllun peilot oedd gwella ansawdd bywyd a chynyddu annibyniaeth, diogelwch a lles, gan leihau unigedd a chynorthwyo cynhalwyr drwy gynnig cyngor ymarferol a chefnogaeth gan gymheiriaid. Roedd amcanion allweddol yn cynnwys:

- Darparu cymorth ymarferol i helpu pobl â dementia i fyw'n dda gartref.
- Lleihau unigedd a gwella lles pobl â dementia a'u cynhalwyr.
- Gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau dementia lleol drwy ddull 'siop un stop'.
- Profi model cost isel sydd wedi'i leoli mewn lyfrgelloedd ac y byddai modd ei gyflwyno'n ehangach ledled Rhondda Cynon Taf.
- Cynhyrchu tystiolaeth ynghylch effaith, galw a threfniadau gweithio mewn partneriaeth i lywio buddsoddiad yn y dyfodol.

Dros y cynllun peilot deufis, cafodd 67 o deuluoedd gymorth yn rhan o'r cynllun yma. Dangosodd adborth y gwerthusiad fod 100% o'r mynychwyr yn teimlo bod angen y gwasanaeth, a bod 80 i 100% wedi sôn eu bod nhw wedi cael profiad rhagorol neu gadarnhaol iawn. Roedd yr adborth hefyd yn dangos cynnydd o ran hyder, gwell dealltwriaeth o lwybrau cymorth a llai o ddryswch.

Derbyniwyd yr adborth canlynol drwy e-bost gan unigolyn a fynychodd sesiwn mewn hwb dementia dros dro yn Llyfrgell Pontypridd.

“Diolch am eich galwad ddilynol heddiw - roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi faint rydyn ni (fel teulu) yn gwerthfawrogi'r cymorth rydyn ni wedi'i derbyn ar ôl i ni sefydlu cysylltiad drwy'r hwb Dementia. Fe wnaeth fy nhad ddioddef dirywiad sydyn yn ei iechyd meddwl yng nghanol mis Ionawr a adawodd ni'n teimlo'n ynysig ac yn ddryslyd fel teulu. Roedd yr hwb dementia yn rhaff achub ac mae wedi ein rhoi ni mewn cysylltiad â'r bobl gywir sydd wedi parhau i'n cefnogi ar y daith anodd yma. Fe wnes i ddarganfod yr hwb drwy drydydd parti ac rydw i'n annog unrhyw un i fanteisio ar y gwasanaeth yma. Rydw i'n credu bod angen i'r cyswllt ar gyfer y ganolfan a'r bobl sydd ei hangen fod trwy'r meddyg teulu yn y dyfodol, oherwydd pan oedden ni mewn argyfwng, dyma oedd yr unig bwynt cyswllt y gallwn i feddwl amdano. Rydw i'n mawr obeithio bod modd i'r cynllun peilot yma barhau a mynd o nerth i nerth gan fod y syniad o blatfform lle mae modd cael mynediad at wasanaethau mewn un lle yn angenrheidiol - oherwydd does gan y rhai ohonon ni sydd y tu allan i'r gwasanaethau ddim syniad beth sydd ar gael mewn gwirionedd - a does gennyn ni ddim syniad beth sydd ei angen arnon ni nes i ni gael gwybod. Byddwn i'n ddiolchgar petai chi'n diolch i'r garfan ehangach ar ein rhan”

Cynyddu dewis a rheolaeth i unigolion

Roedd 4,195 o oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2026. O'r rhain, cafodd anghenion 613 (15%) eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol, i fyny o 553 (13%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd o gynnydd dros y tair blynedd diwethaf. Lle nodwyd angen, darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol i 91% o oedolion.

Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu **micro-fentrau** i ehangu'r farchnad gofal cymdeithasol leol, cynyddu dewis a rheolaeth, a chefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio mewn ffyrdd mwy arloesol a chynaliadwy. Gyda chymorth parhaus gan Community Catalysts a Tribe, cynyddodd nifer y micro-fentrau

yn Rhondda Cynon Taf i 65 erbyn mis Mawrth 2026. Maen nhw bellach yn cynorthwyo 139 o bobl, yn darparu 1,285 awr o ofal bob wythnos ac maen nhw wedi creu 48 o swyddi lleol.

Cododd y nifer o oriau Taliadau Uniongyrchol a ddarparwyd drwy ficro-fentrau hefyd o 614 yr wythnos ym mis Ebrill 2025 i 1,127 ym mis Rhagfyr 2025. Mae hyn yn dangos eu bod nhw'n cynnig dewis arall hyblyg ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth ac maen nhw o fudd i'r gymuned ehangach ac i bobl sy'n ceisio talu am ofal neu gymorth yn breifat.

Astudiaeth achos: Micro-fenter

Mae Mrs B, sy'n 78 oed, yn byw gyda'i gŵr yng Nghwm Rhondda. Hi yw ei brif gynhaliwr. Mae gan Mr B ddementia ac mae angen rhoi cymorth, ac anogaeth sylweddol iddo drwy gydol y dydd. Gan ei bod hi ddim yn ddiogel gadael Mr B ar ei ben ei hun, mae Mrs B yn gofalu amdano ac yn ei oruchwyllo drwy'r dydd a'r nos.

Er bod anghenion Mr B yn uchel, roedd Mrs B eisiau parhau i ofalu amdano ei hun. Ar ôl iddo gael ei ddyrannu i reolwr gofal i archwilio darpariaeth canolfan oriau dydd, cynigiwyd asesiad cynhaliwr i Mrs B ac fe wnaeth hi ei dderbyn.

Cadarnhaodd yr asesiad fod Mrs B eisiau parhau i ofalu am ei gŵr, ond nododd hefyd yr angen am seibiant. Trefnodd y rheolwr gofal wasanaeth eistedd gyda'i gŵr yn rheolaidd drwy ficro-fenter, fel bod rhywun yn aros gyda Mr B a'i gadw'n ddiogel tra bod Mrs B yn cael seibiant.

Helpodd y rheolwr gofal Mrs B i sefydlu Taliadau Uniongyrchol, cwblhau'r gwaith papur a chysylltu â micro-fentrau addas a nodwyd gan y Garfan Broceriaeth. Fe wnaeth y cymorth yma ei helpu i barhau i ofalu am Mr B gartref a lleihau'r angen am becyn gofal ffurfiol neu ofal preswyl.

Yr Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth Blynyddol

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, fe ofynnion ni i sampl o oedolion 18 oed a hŷn, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y cynhaliwyd yr arolwg, am y gofal a'r cymorth y maen nhw'n eu derbyn. Mae cyfraddau ymateb yn parhau i ostwng, gyda 300 o ymatebion eleni o'i gymharu â 496 yn 2024/25 a 724 yn 2023/24, gan adlewyrchu tuedd leol a chenedlaethol ehangach. Byddwn ni'n parhau i weithio i wella cyfranogiad. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, er bod lefelau boddhad wedi gostwng ar draws llawer o fesurau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel lle roedden nhw'n byw ac roedden nhw'n byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles.

MESUR ANSAWDD GWASANAETH: O'r 300 o oedolion a ymatebodd i'r arolwg:

Mae **91%** yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles (o'i gymharu â 93% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).

Mae **60%** yn teimlo'n rhan o'u cymuned (o'i gymharu â 65% yn 2024/25 a 71% yn 2023/24).

Roedd **93%** yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth maen nhw wedi'u derbyn (o'i gymharu â 98% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).

Roedd gan **89%** yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnyn nhw (o'i gymharu â 90% yn 2024/25 a 93% yn 2023/24).

Roedd **97%** wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd (o'i gymharu â 96% yn 2024/25 a 94% yn 2023/24).

Cytunodd **62%** mai eu dewis nhw oedd byw mewn cartref gofal preswyl (o'i gymharu â 66% yn 2024/25 a 64% yn 2023/24). Nodyn: atebwyd y cwestiwn yma gan breswylwyr mewn cartrefi gofal yn unig

Mae **89%** yn teimlo'n ddiogel (o'i gymharu â 92% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).

Mae **84%** yn gwybod gyda phwy y mae modd iddyn nhw siarad am eu gofal a'u cymorth (o'i gymharu ag 80% yn 2024/25 ac 84% yn 2023/24).

Mae **95%** yn hapus gyda'u teulu, ffrindiau a'u cymdogion (o'i gymharu â 94% yn 2024/25 a 97% yn 2023/24).

Dywedodd **77%** eu bod nhw'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw (o'i gymharu ag 80% yn 2024/25 a 78% yn 2023/24).

Roedd **90%** wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch sut roedd eu gofal a'u cymorth yn cael eu darparu (o'i gymharu â 90% yn 2024/25 ac 87% yn 2023/24).

Roedd **97%** wedi cael eu trin ag urddas a pharch (o'i gymharu â 98% yn 2024/25 a 99% yn 2023/24).

Roedd **74%** wedi cael y cyngor, cymorth a chefnogaeth roedden eu hangen arnyn nhw i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion (o'i gymharu â 79% yn 2024/25 a 74% yn 2023/24). Nodyn: atebwyd y cwestiwn yma gan bobl 18 i 24 oed yn unig.

Fe wnaethon ni gynnal arolwg blynyddol o gynhalwyr di-dâl. Cwblhaodd 19 o bobl yr arolwg yma o'i gymharu â 32 yn 2024/25. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 100% yn dweud eu bod nhw wedi bod yn rhan o benderfyniadau am y gofal a'r cymorth sy'n cael ei roi i'r person y maen nhw'n gofalu amdano bob amser neu weithiau.

MESUR ANSAWDD GWASANAETH:
O'r 19 o gynhalwyr di-dal a ymatebodd i'r arolwg:

Dywedodd **100%** eu bod nhw'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw (o'i gymharu ag 87% yn 2024/25 ac 80% yn 2023/24).

Mae **100%** yn hapus gyda'u teulu, ffrindiau a chymdogion (o'i gymharu ag 88% yn 2024/25 a 93% yn 2023/24).

Mae **89%** yn gwybod gyda phwy y mae modd iddyn nhw siarad am gymorth (o'i gymharu ag 86% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).

Roedd **100%** wedi cymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau ynghylch sut y darparwyd y gofal a'r cymorth i'r person roedden nhw'n gofalu amdano (o'i gymharu â 100% yn 2024/25 ac 87% yn 2023/24).

Cafodd **100%** eu trin ag urddas a pharch (o'i gymharu â 100% yn 2024/25 a 98% yn 2023/24).

Mae **100%** yn hapus gyda'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn (o'i gymharu â 93% yn 2024/25 a 100% yn 2023/24).

Mae **76%** yn teimlo'n rhan o'u cymuned (o'i gymharu â 72% yn 2024/25 a 77% yn 2023/24).

Mae **100%** yn teimlo'n ddiogel (o'i gymharu â 97% yn 2024/25 a 100% yn 2023/24).

Roedd **100%** wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd (o'i gymharu â 97% yn 2024/25 a 100% yn 2023/24).

Roedd gan **95%** yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnyn nhw (o'i gymharu â 94% yn 2024/25 a 98% yn 2023/24).

Roedd **94%** yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl fel cynhaliwr (o'i gymharu ag 87% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).



Gwasanaethau i Blant

Cynhalwyr Ifainc

Ym mis Tachwedd 2025, roedd y Gwasanaethau i Blant yn gwybod am 279 o gynhalwyr ifainc, ac roedd gan 21 ohodyn nhw Gerdyn Adnabod Cynhalwyr Ifainc. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni ymgysylltu â chynhalwyr ifainc a staff y Cyngor i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. I grynhoi:

- Mae cymorth i gynhalwyr ifainc a theuluoedd yn cael ei gwerthfawrogi ond yn aml mae'n cael ei darparu ar ei ben ei hun yn hytrach na thrwy ddull cydlynol ar draws y Cyngor.
- Dydyn ni ddim yn gallu bod yn hyderus ein bod ni'n cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen, gan gynnwys cynhalwyr ifainc sydd ddim yn gallu cael mynediad at gymorth grŵp ac sydd o bosibl angen cymorth un-i-un wedi'i deilwra iddyn nhw.
- Dydyn ni ddim yn gallu bod yn sicr bod adnoddau'n cael eu targedu mewn modd sy'n sicrhau y bydden nhw'n cael yr effaith fwyaf.
- Mae angen i'r ddarpariaeth a'r llwybrau presennol fod yn fwy cydnerth.
- Mae angen i ni wneud gwell defnydd o wasanaethau yn y gymuned a gwasanaethau cyffredinol i gysylltu cynhalwyr ifainc â chymorth lleol.
- Mae angen inni hefyd ystyried goblygiadau model cymorth newydd y Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer cynhalwyr di-dâl, gan gynnwys cynhalwyr sy'n rieni.

Bydd gwaith i wella cymorth a chyfleoedd i gynhalwyr ifainc yn dechrau yn 2026/27.

Yr Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth Blynyddol

Fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, fe wnaethon ni ofyn i sampl o blant a phobl ifainc oedd â chynllun gofal a chymorth ar ddyddiad y sampl ynglŷn â'r gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn. Gofynnodd yr arolwg hefyd am amser hamdden, gweithgareddau yr hoffen nhw eu gwneud ond dydyn nhw ddim yn cael y cyfle, gan roi cyfle iddyn nhw ddweud nhw unrhyw beth pwysig arall sydd gyda nhw i'w ddweud. Roedd 16% yn cytuno, a defnyddiodd rhai'r blwch testun rhydd i ychwanegu rhagor o fanylion. Er bod llai o bobl wedi ymateb na'r llynedd, mae'r adborth yma'n dal i'n helpu ni i ddeall profiad defnyddwyr y gwasanaeth a nodi beth sydd angen newid.

Cwblhaodd cyfanswm o 89 o blant yr arolwg, o'i gymharu â 117 yn 2024/25 a 169 yn 2023/24. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r mesurau'n well na'r blynyddoedd blaenorol. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod nhw bob amser neu weithiau'n teimlo'n ddiogel lle roedden nhw'n byw, a dywedodd 99% eu bod nhw'n byw mewn cartref lle roedden nhw'n hapus ac yn teimlo eu bod nhw'n cael gofal da.

MESUR ANSAWDD GWASANAETH: O'r 89 o blant a phobl ifainc a ymatebodd i'r arolwg:

Roedd **99%** yn byw mewn cartref lle roedden nhw'n hapus (o'i gymharu ag 89% yn 2024/25 a 92% yn 2023/24).

Roedd **91%** yn gallu siarad â'u gweithiwr cymdeithasol am bethau sy'n bwysig iddyn nhw (o'i gymharu ag 81% yn 2024/25 ac 83% yn 2023/24).

Roedd **99%** yn teimlo eu bod nhw'n cael gofal da (o'i gymharu â 96% yn 2024/25 a 95% yn 2023/24).

Roedd **100%** yn teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw (o'i gymharu â 95% yn 2024/25 a 98% yn 2023/24).

Roedd **94%** yn teimlo eu bod nhw'n perthyn i'r ardal lle maen nhw'n byw (o'i gymharu ag 81% yn 2024/25 ac 86% yn 2023/24).

Roedd **96%** wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd (o'i gymharu â 94% yn 2024/25 a 94% yn 2023/24).

Roedd **69%** yn gwybod pam fod ganddyn nhw weithiwr cymdeithasol (o'i gymharu â 77% yn 2024/25 ac 86% yn 2023/24).

Roedd **79%** wedi cael cyngor, cymorth a chefnogaeth a fydd yn eu paratoi ar gyfer bod yn oedolion (o'i gymharu â 72% yn 2024/25 ac 82% yn 2023/24). Nodyn: atebwyd y cwestiwn yma gan bobl ifainc 16/17 oed yn unig.

Roedd **86%** yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn am eu gofal a'u cymorth (o'i gymharu ag 81% yn 2024/25 ac 82% yn 2023/24 ac 88% yn 2022/23).

Pontio

Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliwyd gweithdy pontio ar gyfer staff y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant oedd yn cefnogi pobl ifainc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion, a hynny i lywio'r Strategaeth Bontio ddrafft a fyddai'n destun ymgynghoriad, cyd-gynhyrchu a datblygu cynllun prosiect ar y cyd i'w weithredu yn 2026/27.

Mwy Na Geiriau

Fe wnaethon ni barhau ni i ymateb yn effeithiol i Safonau'r Gymraeg a fframwaith 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru, gan gydweithio'n agos â Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Fe wnaethon ni hefyd fonitro darparwyr allanol i wirio eu bod nhw'n cydymffurfio â'r rhain, ac ni ddaethon ni o hyd i unrhyw broblemau.

Rydyn ni'n parhau i weithredu cynnig rhagweithiol mewn perthynas â'r Gymraeg lle mae'r person wedi datgan mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith, ac mae hyn yn cael ei gofnodi ar ein system. Mae pob dogfen sy'n cael ei chyhoeddi yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog, mae staff yn deall y Safonau, ac rydyn ni'n parhau i gefnogi staff i ddysgu'r Gymraeg drwy hyfforddiant, sesiynau gwybodaeth a nodiadau atgoffa.

Gan adeiladu ar ein gwaith yn 2024/25, fe wnaethon ni barhau i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Cwrs Codi Hyder. Mae'r rhaglen yn helpu staff lefel 3+ i feithrin hyder a geirfa i weithio yn y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, trwy hyfforddiant un-i-un wythnosol, sesiynau grŵp bach dewisol a boreau coffi. Cafodd ail garfan ei nodi ar ôl i wyth aelod o staff gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn 2024/25.

Fe wnaethon ni hefyd weithio gyda Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflawni Prosiect Siarad. Mae'r prosiect, a gafodd ei lansio ym mis Ionawr 2026, yn cynnig wyth sesiwn sgwrsio Cymraeg wythnosol i staff, gan ddefnyddio fformat "paned a sgwrs" anffurfiol i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Fe wnaethon ni gynhyrchu dau fideo gyda Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i ddathlu'n cynnydd wrth datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaethau i Oedolion ac i annog staff i feithrin eu sgiliau a chryfhau ein cymuned sy'n siarad Cymraeg yn y gweithle.

Cwblhaodd y Gwasanaethau i Oedolion 4,484 o asesiadau newydd yn 2025/26, ac roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol mewn perthynas â'r Gymraeg ym mhob achos (100%). Derbyniwyd y cynnig mewn 16 achos, sy'n llai na'r 42 a nodwyd yn 2024/25, gan adlewyrchu dewis unigolion. Yn y Gwasanaethau i Blant, roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol mewn 1,780 o achosion, sy'n llai na'r 1,940 a nodwyd yn 2024/25, tra roedd y nifer a derbyniodd y cynnig wedi cynyddu o 7 i 14.

Ym mis Mawrth 2026, cymerodd rheolwyr y Gwasanaethau i Blant ran mewn gweithdy Mwy Na Geiriau cyn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu a diweddarau eu cynllun.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Fe wnaethon ni gefnogi uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Dileu hiliaeth yn y gweithle, sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru. Nod y cynllun yma yw mynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei weithredu.

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Gwasanaethau i Oedolion:

- Ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant mewn trefniadau llywodraethu'r gweithlu
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gydraddoldeb hiliol a chanllawiau i reolwyr
- Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu fforwm staff ar gyfer staff mwyafrif byd-eang
- Rhoi safonau gwrth-hiliol ar waith wrth adolygu polisiau
- Dadansoddi cynrychiolaeth ethnig lleiafrifol yn y gweithlu
- Ychwanegu cwestiynau arolwg sy'n rhoi sylw i gynnydd staff ethnig lleiafrifol.

Sefydlodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf brosiect gwrth-hiliol mewn ymateb i anghydraddoldebau hiliol parhaus a nodwyd yn genedlaethol ac yn lleol, gan gynnwys tystiolaeth bod gwelliannau yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddim wedi bod o fudd i blant o grwpiau ethnig lleiafrifol. Daeth dadansoddiad lleol i'r casgliad bod y plant yma'n gallu profi deilliannau mwy llym a gwahaniaethu. Datblygodd y prosiect hyfforddiant a chanllawiau i feithrin hyder staff, gwella dealltwriaeth o anghyfrannedd a chefnogi arfer teg, gwrth-hiliol. Bydd yr hyfforddiant yma'n cael ei gyflwyno ar draws y Gwasanaethau i Blant yn ystod gwanwyn 2026.

Cynhaliodd y Gwasanaethau i Blant bedair sesiwn Hysbysu a Chynnwys Cymru wrth-hiliol ar gyfer staff. Roedd y sesiynau'n cynnwys gwaith grŵp i fyfyrwyr ar brofiadau pobl ifainc.

Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:

“Mae’r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau’r canlyniad gorau posibl i bobl”

“Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas”

Mae'r blaenoriaethau sy'n ymwneud ag atal roedden ni wedi bwriadu eu cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant yn 2025/26, ac rydyn ni wedi llwyddo eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yma, i'w gweld yn y tabl isod.

Blaenoriaethau rydyn ni wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

Gwneud yn siŵr bod gan bobl ag anableddau dysgu fynediad i lety gyda chymorth sy'n eu galluogi i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl yn y gymuned.

Cynyddu nifer yr opsiynau llety hyblyg, ymatebol i bobl hŷn a gwella'u safon.

Pan fydd pobl yn adfer eu hiechyd a'u gallu i reoli eu trefniadau byw eu hunain, byddwn ni'n rhoi cymorth iddyn nhw i symud ymlaen i lety mwy addas mewn modd amserol.

Gweithio gydag unigolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau drostyn nhw eu hunain fel eu bod ganddyn nhw'r gallu i ddewis drostyn nhw eu hunain a chymryd cymaint o reolaeth dros eu bywydau a phosibl.

Byddwn ni'n gweithredu'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal - bydd hyn yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dod i ofal.

Llety Gofal

Fe wnaethon ni barhau i gyflawni strategaeth llety gofal gwerth miliynau o bunnoedd y Cyngor ar gyfer pobl hŷn a phobl agored i niwed. Fe wnaethon ni sicrhau'r cymysgedd cywir o wasanaethau i ddiwallu'r galw cynyddol ac anghenion sy'n newid, a lle bo'n bosibl helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol gartref neu mewn tai gofal ychwanegol gyda chymorth wedi'i dargedu.

Mae cynlluniau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys:



DAN Y MYNYDD

Llety gofal ychwanegol newydd sy'n cynnwys 60 fflat yn y Porth. Mae disgwyl i'r cyfleuster yma agor ym mis Gorffennaf 2026.

ABERPENNAR

Llety gofal newydd a fydd yn cynnwys 25 o fflatiau gofal ychwanegol, 15 o welyau gofal dementia preswyl ac 8 byngalo ar un safle. Mae disgwyl i'r cyfleuster yma agor yn ystod hydref 2027.



GLYNRHEDYNOG

cartref gofal dementia preswyl newydd â 32 gwely a fydd yn disodli Cartref Gofal Tŷ Glynrhedynog pan fydd wedi'i gwblhau. Mae disgwyl i'r cyfleuster yma agor yn ystod gwanwyn 2028.



Astudiaeth Achos: Byw'n annibynnol gyda gofal ychwanegol

Mae Janice a Dilwyn Watkins wedi ffynnu ers symud i lety gofal ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd. Roedd eu cartref rhent preifat bellach yn anaddas ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth cynyddol yn dilyn cwmpadau.

Ers symud i Gwrt yr Orsaf:

- Mae risgiau diogelwch wedi lleihau drwy fod mewn amgylchedd hygyrch, pwrpasol.
- Maen nhw'n fwy annibynnol, gan eu bod nhw'n derbyn cymorth o ran eu symudedd a bywyd bob dydd.
- Mae eu lles wedi gwella, gan gynnwys eu hurddas a'u sefydlogrwydd emosiynol.
- Maen nhw wedi aros gyda'i gilydd, yn unol â'u dymuniadau.
- Mae eu cysylltiadau cymdeithasol wedi'u hadfer, gan gefnogi cyfranogiad cymunedol.

Mae Dilwyn a Jan bellach yn gallu dychwelyd i'w clwb cymdeithasol lleol a mwynhau gweithgareddau megis bingo, wrth ddychwelyd i amgylchedd cartref diogel a chefnogol. Mae hyn yn cynrychioli "y gorau o'r ddau fyd", gan gydbwysu diogelwch, cymorth ac annibyniaeth. Mae hyn hefyd yn eu cefnogi nhw i gynnal perthnasoedd sydd wedi'u hadeiladu dros ddegawdau yn eu hen dref enedigol sydd ond ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd o'r llety newydd yng Nghwrt Yr Orsaf. Maen nhw wedi dathlu 40 mlynedd o briodas yn eu cartref newydd yn ddiweddar! Mae rhagor o wybodaeth am amser Janice a Dilwyn yng Nghwrt yr Orsaf yn y **fideo** yma.

Ochr yn ochr â'n buddsoddiad hirdymor mewn llety gofal i bobl hŷn, fe wnaethon ni barhau i fuddsoddi mewn llety modern i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys:

BRONLLWYN

cartref gofal arbenigol newydd yn y Gelli a fydd yn darparu llety parhaol i 14 o bobl a llety seibiant i bobl ag anghenion ac ymddygiad cymhleth.

Disgwylir iddo agor yn gynnar yn 2027.



GARTH OLWG

cynllun byw â chymorth newydd gyda 22 gwely a chanolfan oriau dydd ym Mhentre'r Eglwys. Mae'r broses o gaffael partner sy'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn cael ei chynnal ar hyn o bryd.

Model Adferiad (llety cam i lawr)

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau i symud o leoliadau therapiwtig dwys i lety cam i lawr, cyn symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol yn y gymuned.

Mae llety cam-i-lawr yn rhan gydnabyddedig o'r model adfer. Mae'n cefnogi proses adfer sy'n cael ei harwain gan y person, sy'n cynnig cyfnod pontio tuag at fyw'n annibynnol, ac yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r Cyngor.

Yn 2025/26, gadawodd 14 o bobl leoliadau arbenigol, a nodwyd bod 18 angen y math yma o lety â chymorth yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Mae'r galw am lety cam-i-lawr yn cynyddu wrth i anghenion ddod yn fwy cymhleth. Mae angen lleoliadau gofal preswyl arbenigol ar fwy o bobl bellach, a bydd angen darpariaeth cam-i-lawr ar y rhan fwyaf ohonyn nhw ar ryw adeg.

Astudiaeth Achos: Camu i lawr i fyw'n annibynnol

Mae gan Siân, sy'n 38 oed, ddiagnosis o anhwylder sgitsoaffeithiol. Yn 2020, ar ôl cyfnod yn yr ysbyty ac mewn llety adsefydlu, symudodd i fyw mewn llety â chymorth arbenigol drwy'r Panel Gwasanaethau Arbenigol yn rhan o gam tuag at ragor o annibyniaeth. Arhosodd yno am bron i bum mlynedd.

Gyda chymorth cyson, cyflawnodd Siân ei nod o symud i fyw'n annibynnol. Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol, ac mae hi bellach ar ei hapusaf erioed ac mae hi'n gweithio tuag at ymgymryd â gwaith gwirfoddoli yn rhan o'i hadferiad.

Astudiaeth achos: Lleoliad brys i fyw'n annibynnol

Ym mis Mehefin 2025, roedd angen i Cliff symud i leoliad preswyl brys ar ôl difrod i'w eiddo. Mae bellach yn ôl adref ac mae'n byw'n annibynnol gyda chymorth, yn dilyn gwaith amlasiantaeth wedi'i gydlynw a gwaith ailalluogi. Roedd y risgiau'n cynnwys colli annibyniaeth, gofid emosiynol, ofn aelodau o'r teulu a chamfanteisio ariannol blaenorol. Er iddo gael strôc yn ystod y lleoliad, roedd Cliff yn parhau i fod yn frwdfrydig i adennill ei annibyniaeth. Gyda chymorth gan bartneriaid yn y sector tai, y sector iechyd, yr adran gyllid a'r sector gwirfoddol, symudodd i dŷ gwarchod lle gwellodd ei sgiliau byw bob dydd, gan leihau ei becyn gofal a chefnogi ei ryddhad wedi'i gynllunio o ofal gwasanaethau.

Gwaith Cymdeithasol yn y Garfan Allgymorth Tai

Yn 2025/26, sicrhawyd cyllid i gyflogi gweithiwr cymdeithasol yn y Garfan Cymorth Allgymorth Tai. Mae'r gwasanaeth allgymorth amlasiantaeth arbenigol yma'n cefnogi pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd, mewn llety ansefydlog, neu'n byw mewn llety brys, hostel, llety 'Tai yn Gyntaf' neu lety â chymorth. Yn aml mae ganddyn nhw anghenion cymhleth ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd, felly mae'r garfan yn gweithio gyda nhw nes eu bod nhw'n barod i symud i wasanaethau ehangach.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ieuchyd, tai, cymorth a'r trydydd sector i fynd i'r afael ag anghenion gofal, triniaeth a chymorth. Maen nhw'n asesu pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth ac yn eu helpu i lywio llwybrau ieuchyd a gofal cymdeithasol i nodi cymorth yn y dyfodol.

Astudiaeth Achos: Gweithiwr Cymdeithasol yn y Garfan Allgymorth Tai

Cafodd Adam, 35, ei gyfeirio at y garfan Allgymorth Tai o ganlyniad i'w sefyllfa llety ansefydlog, ei broblemau o ran camddefnyddio sylweddau ac roedd wedi cael nifer o ddedfrydau o garchar. Roedd ganddo anghenion cymhleth, gan gynnwys ieuchyd meddwl gwael, hanes o droseddu, ac roedd yn cael anhawster cynnal perthnasoedd a llety. Cyn ei ddedfryd ddiweddaraf, roedd yn byw mewn llety dros dro ac yn cael trafferth gyda bywyd bob dydd. Roedd ganddo broblemau camddefnyddio sylweddau ac ieuchyd meddwl ac roedd y rhain yn creu rhwystrau mawr o ran sefydlogrwydd ac annibyniaeth.

Dechreuodd y gweithiwr cymdeithasol Allgymorth Tai weithio gydag Adam yn y ddalfa, gan ymweld ag ef yn y carchar i feithrin perthynas, asesu ei anghenion a datblygu cynllun yn seiliedig ar gryfderau a oedd yn canolbwyntio ar ei nodau hirdymor. Llywiodd hyn cymorth cydlynol gan y Gwasanaeth Prawf, yr adran Dai, y Gwasanaethau i Blant a'r garfan Cyffuriau ac Alcohol yn y Gymuned. Hefyd, helpodd y gweithiwr cymdeithasol Adam gyda chyllidebu, coginio a rheoli apwyntiadau i feithrin hyder, annibyniaeth a ffactorau amddiffynnol.

Ers ei ryddhau, mae Adam wedi ymatal rhag alcohol a sylweddau am bum mis ac mae'n parhau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae ei berthynas â'i blant wedi gwella'n sylweddol, ac mae ganddo fflat sefydlog bellach lle maen nhw'n aros y rhan fwyaf o benwythnosau. Dyma'r cyfnod hiraf y mae wedi aros yn y gymuned heb aildroseddu. Rhoddodd dull cydlynol, wedi'i lywio gan drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y strwythur a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen ar Adam i ailadeiladu ei fywyd.

Ailalluogi

Fe wnaethon ni barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n atal angen cynyddol ac sy'n hyrwyddo adferiad ac annibyniaeth. Yn 2025/26, fe wnaethon ni gwblhau 1,212 o becynnau ailalluogi, ac fe wnaeth 99% ohonyn nhw leihau, cynnal neu liniaru'r angen am gymorth, o'i gymharu â 98% yn 2024/25.

Astudiaeth Achos: Therapi Ailalluogi ac Adsefydlu Synhwyrdd

Dychwelodd oedolyn hŷn adref o'r ysbyty ar ôl strôc gyda dirywiad macwlaidd ac amhariad ar y clyw a oedd eisoes wedi'i nodi. Yna dirywiodd ei golwg yn sylweddol, gan arwain at golli golwg maes ymylol, dryswch, rhithwelediadau a phryder. Effeithiodd hyn yn ddifrifol ar ei symudedd, ei hyder a'i bywyd bob dydd, gan ei rhoi mewn perygl uchel o fod angen gofal hirdymor.

Gweithiodd y carfanau Therapi Galwedigaethol Ailalluogi ac Adsefydlu Synhwyrdd gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'i hadferiad corfforol a'i hamhariad ar y golwg. Darparodd y garfan Therapi Galwedigaethol Ailalluogi gymorth o ran symud yn ddiogel, gofal personol, symudedd dan do a hyder, gan ddefnyddio cymorth graddol ac offer. Asesodd y garfan Adsefydlu Synhwyrdd ei golwg gweithredol, ei dysgu i ddefnyddio dulliau sganio gweledol a chyflwyno addasiadau amgylcheddol i wella ei diogelwch a'i hannibyniaeth.

Sicrhodd y trefniadau cydweithio agos yma strategaethau synhwyrdd sy'n cefnogi nodau ailalluogi corfforol yn uniongyrchol, yn enwedig o ran symudedd, diogelwch yn y gegin a byw bob dydd.

Cyflwynwyd dulliau sganio gweledol mewn ffordd strwythuredig a'u rhoi ar waith wrth symud, cyflawni tasgau yn y gegin, hamdden a chyfathrebu. Wrth i'w hyder wella, symudodd y person yma o oruchwyliaeth agos i symud yn annibynnol yn ei chartref, gan ddefnyddio ffrâm gerdded pedair olwyn.

O ganlyniad i'r trefniadau cydweithio yma:

- Adferwyd ei gallu i symud yn annibynnol dan do a'i gallu i gyflawni tasgau gofal personol;
- Roedd ei chryfder, cydbwysedd a hyder wedi gwella, gan leihau ei risg o gwmpo;
- Gostyngodd ei phryder yn sylweddol wrth i'w hannibyniaeth gynyddu;
- Rheolwyd ei gweithgareddau dyddiol, ei hobiau a chyfathrebu yn annibynnol;
- Llwyddwyd i osgoi yr angen am ofal hirdymor a pharhaodd y person i fyw'n annibynnol gartref.

Mae'r achos yma'n dangos gwerth cydweithio rhwng y carfanau Therapi Galwedigaethol Ailalluogi ac Adsefydlu Synhwyrdd wrth wella diogelwch, annibyniaeth a lles, ac atal yr angen am ofal hirdymor.

Yn 2025/26, cwblhaodd y garfan Synhwyrdd 307 o asesiadau. Cafodd 108 o Dystysgrifau Amhariad ar y Golwg eu cofrestru a chefnogodd y garfan 273 o bobl trwy'r broses adsefydlu i gyflawni annibyniaeth mewn tasg a nodwyd.

Yn 2025/26, cefnogodd ein Gwasanaeth Adsefydlu Cymorth yn y Cartref mewnol 1,149 o bobl gan ddarparu 30,852 awr o gymorth uniongyrchol i'w helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys gofal yn y cartref wedi'i arwain gan therapi neu ofal yn y cartref sydd heb ei arwain gan therapi. Erbyn diwedd eu rhaglen tymor byr, roedd 58% wedi dod yn annibynnol.

Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Cof heb ei arwain gan therapi (Cymorth yn y Cartref)

Cafodd Mr H ei dderbyn i'r ysbyty ym mis Ionawr ar ôl cael ei ganfod wedi cwmanu yn ei gadair, yn anymataliol, gyda llai o gymeriant trwy'r geg, dryswch aciwt a phoen yn ei glun chwith. Cafodd driniaeth am haint y llwybr wrinol a amheuwyd a phoen yn ei glun. Mae gan Mr H hanes meddygol cymhleth. Roedd ei deulu wedi adrodd fod ganddo anawsterau gyda'i gof ers tua 18 mis, a chafodd atgyfeiriad ei wneud i'r clinig cof. Roedd y risgiau'n cynnwys esgeulustod anfwriadol, llai o symudedd, datgyflyru, cwympiadau, deliriwm, amhariad gwybyddol sy'n dod i'r amlwg, anhawster i addasu i gymhorthion cerdded newydd a diffyg maeth.

Yn dilyn asesiad, trefnwyd pecyn gofal o ddau ymweliad y dydd, saith diwrnod yr wythnos, i gefnogi gofal personol a maeth, gydag adolygiad parhaus i fonitro cynnydd ac angen tymor hwy. Er mwyn cefnogi diogelwch gartref, darparwyd cymhorthion ac addasiadau bach. Gosododd y teulu sêff allweddi i staff allu cael mynediad, ac roedd gan Mr H fynediad at linell fywyd eisoes gyda chymorth ymatebwyr symudol 24/7.

Cafodd Mr H gymorth diogel gartref ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, ac roedd ei anghenion gofal a maeth uniongyrchol yn cael eu diwallu trwy becyn gofal prydlon, wedi'i deilwra. Fe wnaeth cymhorthion, addasiadau a threfniadau mynediad leihau risgiau gartref ymhellach a rhoi tawelwch meddwl i Mr H a'i deulu, gan gefnogi ei ryddhau o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol.

Addasu ac Offer y Gymuned

Yn 2025/26, cwblhaodd y garfan Addasu ac Offer y Gymuned 1,389 o asesiadau a 585 o asesiadau symud a chodi a chario, gan leihau risg a helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref. Hefyd, fe wnaeth Vision Products ddanfôn 8,251 o ddarnau o offer i drigolion Rhondda Cynon Taf a chasglu 2,769 o eitemau i'w hailgylchu.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 738 o addasiadau i gartrefi i helpu pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref. Roedd y rhain yn cynnwys 382 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, 332 o addasiadau bach a 24 achos o waith a ariannwyd gan gynllun HWYLUSO

Astudiaeth Achos: Hyrwyddo annibyniaeth drwy ddarparu cymhorthion bach

Mae Mrs D yn oedolyn hŷn sydd â phroblemau symudedd sydd ddim yn gallu sefyll am gyfnodau hir oherwydd poen cronig yn ei chymalau. Roedd hi'n byw ar ei phen ei hun ac roedd hi'n cael tasgau bob dydd yn gynyddol anodd, yn enwedig paratoi prydau bwyd, cario eitemau o gwmpas y cartref a mynd i'r toiled yn y nos.

Yn ystod asesiad Therapi Galwedigaethol, dywedodd Mrs D fod sefyll am gyfnodau hir yn gwneud paratoi prydau bwyd yn boenus, bod cario bwyd a diodydd yn achosi blinder a risg o gwmpo, a bod cyrraedd yr ystafell ymolchi yn y nos yn anodd oherwydd bod ganddi broblemau cydbwysedd. Er mwyn cefnogi ei hannibyniaeth, argymhellodd y Therapydd Galwedigaethol:

- **Stôl eistedd:** ar gyfer tasgau cegin, gan ganiatáu i Mrs D baratoi prydau bwyd ar ei heistedd â chymorth, gan leihau poen a blinder.
- **Troli hygyrch:** i symud bwyd, diodydd ac eitemau eraill mewn un daith, gan leihau straen a'r risg o gwmpo.
- **Toiled wrth ochr y gwely:** i ddarparu toiled diogel yn ystod y nos fel bod dim angen iddi hi gerdded i'r ystafell ymolchi pan mae ei chydbwysedd wedi'i effeithio fwyaf.

Yn dilyn yr ymyraethau yma, dywedodd Mrs D bod ganddi fwy o annibyniaeth. Mae hi bellach yn gallu paratoi prydau bwyd, symud bwyd a diodydd yn ddiogel, a mynd i'r toiled yn y nos yn hyderus. Mae'r cymhorthion syml, rhad yma wedi gwella ei diogelwch, lleihau dibyniaeth ar eraill a gwella ansawdd ei bywyd o ddydd i ddydd.

Cynhalwyr (Gofalwyr) Di-dâl

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn bwrw ymlaen â rhaglen gydlynol i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i gynhalwyr di-dâl wrth baratoi ar gyfer goblygiadau'r 'Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl' sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r cymorth rydyn ni'n ei gynnig yn cael ei ail-lunio mewn ymateb i ddisgwyliadau a natur newidiol rôl cynhaliwr di-dâl. Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod tua 11.2% o'n poblogaeth, tua 26,000 o bobl, yn darparu gofal heb gyflog, gyda niferoedd cynyddol o gynhalwyr hŷn ac amrywiad eang mewn dyletswyddau gofal. Yn hanesyddol, roedd rhan fawr o'r cymorth anstatudol sy'n cael ei ddarparu i gynhalwyr yn dod gan Gynllun Cynnal y Cynhalwyr ym Mhontypridd, ond roedd y nifer a fanteisiodd ar y cymorth hwnnw'n isel. Dim ond tua 10% o gynhalwyr oedd wedi cofrestru ac roedd presenoldeb wyneb yn wyneb yn gyfyngedig iawn.

Mewn ymateb, datblygodd y Gwasanaethau i Oedolion, ar y cyd â'r garfan Datblygu'r Gymuned a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, fodel newydd o gymorth i gynhalwyr di-dâl sy'n oedolion, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r model wedi'i lunio gan farn cynhalwyr, ac mae'n canolbwyntio ar hygyrchedd a chyrhaeddiad. Mae'r model yn dwyn ynghyd wybodaeth drwy'r llyfrgelloedd a chydlynwyr cymunedol, cyngor a chymorth lles sy'n cael ei ddarparu gan Gydlynnydd y Cynhalwyr pwrpasol a gwasanaethau gan gymheiriaid. Hefyd, mae'r asesiadau cynhalwyr statudol sy'n cynnwys gwasanaethau seibiant yn cael eu darparu drwy garfanau gwaith cymdeithasol yn rhan o gynlluniau cymorth personol.

Er mwyn cefnogi'r newid yma, mae adnoddau o gynllun y cynhalwyr Pontypridd wedi cael eu hailfuddsoddi

mewn gwasanaethau gwybodaeth sydd wedi'u lleoli yn ein llyfrgelloedd a gwasanaethau lles cymunedol. Mae cynllun gweithredu graddol a chynllun risg ar waith. Roedd y cynnydd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â chynhalwyr, staff a rhanddeiliaid, a recriwtio Cydlynnydd y Cynhalwyr newydd. Mae gwaith hefyd ar y gweill i sicrhau bod cynhalwyr yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith o ddylunio gwasanaethau trwy annog rhagor o ymgysylltu lleol o dan y model newydd.

Gweithiodd y Cyngor hefyd gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i drefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth o gynhalwyr ar gyfer staff llyfrgelloedd a staff y gwasanaethau cymuned. Mae Rhondda Cynon Taf wedi cael ei dewis yn ardal beilot ar gyfer y rhaglen yma sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn helpu i ymgorffori'r model cymorth newydd.

Adolygodd y Cyngor hefyd drefniadau seibiant i gynhalwyr di-dâl. Yn 2025/26, darparodd cyllid Cynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru, a ddarparwyd ar y cyd â'r Garfan Datblygu'r Gymuned, dalebau seibiannau byr unigol i 619 o gynhalwyr ar gyfer gweithgareddau hamdden, lles a chymdeithasol. Dyfarnwyd grantiau hefyd i 13 o sefydliadau cymunedol a thrydydd sector i gyflwyno mwy na 100 o sesiynau grŵp. Roedd y rhain o fudd i dros 200 o gynhalwyr a nodwyd eu bod wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol iawn o ran iechyd meddwl, cysylltiadau cymdeithasol, a mynediad at wybodaeth a chyngor. Mae cais am ragor o gyllid wedi'i gyflwyno ar gyfer 2026/27. Ochr yn ochr â'r model cymorth sydd wedi'i ailgynllunio a'r dull o fanteisio ar ein darpariaeth yn y gymuned, mae disgwyl i'r dull yma gynyddu cyrhaeddiad ac effaith y cymorth sydd ar gael i gynhalwyr di-dâl.

Seibiannau i Bobl Hŷn

Mae seibiannau yn hanfodol i deuluoedd sy'n gofalu am rywun gartref, er mwyn rhoi amser i ffwrdd iddyn nhw gan sicrhau bod y person maen nhw'n gofalu amdano yn cael ei gefnogi mewn amgylchedd diogel a chadarnhaol. Yn 2025/26, dechreuon ni adolygiad o wasanaethau seibiant i bobl hŷn. Dangosodd ymgysylltiad blaenorol â chynhalwyr di-dâl, fod cynhalwyr yn gwerthfawrogi seibiannau mwy hyblyg a rheolaidd, ochr yn ochr â seibiant mewn cartrefi gofal. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ystod gwaith ymgysylltu â chynhalwyr di-dâl, staff y Cyngor a rhanddeiliaid eraill a gynhaliwyd yn nhymor y Gwanwyn 2026. Datblygwyd model drafft a bydd hyn yn cael ei fireinio gyda rhanddeiliaid yn 2026/27.

Cefnogi Cyflogaeth Gynhwysol

Busnes sy'n cael ei gefnogi gan y Cyngor yw **Vision Products**, dyma fusnes sy'n Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac sy'n darparu ystod o wasanaethau amrywiol. Mae'n hyrwyddo cynhwysiant trwy deilwra cyfleoedd i bobl ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi, yn hyfforddi ac yn cefnogi tua 91 o unigolion ag amrywiaeth o anabledau. Mae nifer o'r bobl yma'n cael eu cefnogi trwy gyflogaeth, cyfleoedd dan hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd profiad gwaith.

Er mwyn helpu pobl i aros yn annibynnol gartref am hirach, fe wnaeth Vision Products ddanfôn 8,251 o ddarnau o offer i drigolion Rhondda Cynon Taf a chasglu

2,769 o eitemau i'w hailgylchu yn ystod y flwyddyn.

Mae gwasanaeth technoleg gynorthwyol Vision Products hefyd yn helpu pobl i aros yn annibynnol gartref trwy gynnig datrysiadau digidol wedi'u teilwra fel teclyn gwddf Llinell Achub Bywyd (Lifeline) a synwryddion cwmpo. Yn 2025/26, trosglwyddodd y garfan 1,041 o gleientiaid o offer llinell achub bywyd analog i offer digidol a gwasanaethodd 5,757 darn o offer mewn cartrefi preifat, canolfannau oriau dydd a lleoliadau gofal eraill, gan helpu i sicrhau diogelwch, dibynadwyedd a chymorth gymunedol barhaus.

Vision Products: Yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni yn 2025-2026

Gosodon ni **2,050 o ffenestri**.
Mae hynny'n **150 yn fwy** na'r llynedd.

Fe wnaethon ni helpu **11 o bobl** i ddod o hyd i waith.
Mae hynny'n **2 yn fwy** na'r llynedd.

Fe dosbarthon ni **20,695 o eitemau**.
Mae hynny'n **2,502 yn llai** na'r llynedd.

Llwyddodd ein busnes ffenestri PVCU i wneud **£1.71 miliwn** mewn gwerthiannai.
Mae hynny'n **100k yn llai** na'r llynedd.

Fe gawson ni **29 neges o ganmoliaeth**.
Mae hynny'n **6 yn fwy** na'r llynedd.

Fe wnarthom ni ailwampio **12,875 o eitemau**.
Mae hynny'n **188 yn fwy** na'r llynedd.

Fe wnaethon ni wasanaeth **5,194** darn o offer. **615 yn fwy** na'r llynedd.

Fe wnaethon ni drefu **180 o gyrsiau** hyfforddi.
Mae hynny'n **141 yn fwy** na'r llynedd.

Mae **92%** o bobl yn hapus yn eu swydd.
12% yn uwch na'r llynedd.

Fe wnaethon ni basio **13** archwiliad mewnol a **5** archwiliad allanol.
Yr **un faint** â'r llynedd.

Gosodon ni **1,303 o becynnau** technoleg gynorthwyol.
94 yn llai na'r llynedd.

Gwerthodd Vision mobility eitemau gwerth **£80.9k** mil i gwsmeriaid.
Mae hynny'n **£3.5k yn llai** na'r llynedd.

Astudiaeth Achos: Cefnogi cyflogaeth gynhwysol. Stori Morgan – Twf drwy gefnogaeth

Mae Cynllun Hyfforddeion Vision Products yn darparu profiad gwaith â thâl i bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor, gan eu helpu i feithrin sgiliau, hyder a llwybrau i gyflogaeth yn y dyfodol mewn amgylchedd cefnogol.

Profodd Morgan, sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, sensitifrwydd synhwyrdd a phryder cymdeithasol. Yn ystod ei amser yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd, roedd yn teimlo'n barod i weithio ond roedd angen y gefnogaeth gywir arno.

Ar ôl iddo gwblhau treial gwaith llwyddiannus, aeth Vision Products ati i deilwra pecyn cymorth ar gyfer Morgan gyda chymorth hyfforddwr swydd pwrpasol, hyfforddiant sgiliau, adolygiadau rheolaidd ac amgylchedd cynhwysol.

Ar y dechrau, roedd Morgan yn cael trafferth gyda phryder cymdeithasol a chyfathrebu. Gyda chefnogaeth gyson a hyfforddiant strwythuredig, fe lwyddodd i fagu hyder, gwelwyd gwelliant yn ei sgiliau cyfathrebu a daeth yn fwy integredig â'r garfan, gan dderbyn adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid a chydweithwyr. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant 12 mis, sicrhodd Morgan swydd Cynorthwy-ydd Gyrrwr llawn amser ym mis Mawrth 2026. Gwnaeth argraff ar y cyfweilwyr gyda'i agwedd a'i ethos gwaith ac mae bellach yn aelod gwerthfawr o'r garfan sy'n darparu gwasanaeth rhagorol.

Dywedodd Morgan *“Mae'n golygu popeth i mi i gael fy nghyflogi o'r diwedd ar ôl gwneud fy ngorau a gweithio mor galed am 5 mlynedd i gael lle sydd eisiau fy nghyflogi. Cyn gynted ag y cefais yr alwad ffôn i ddweud fy mod wedi cael y swydd dechreuais i grio. Dw i wir yn mwynhau gweithio yn y faniau a rhoi'r offer sydd ei angen ar bobl i fyw oherwydd mae'n gwneud i mi feddwl fy mod i'n gwneud gwahaniaeth.”*

Mae taith Morgan yn dangos sut mae modd i gymorth wedi'i deilwra, gweithleoedd cynhwysol a hyfforddiant strwythuredig helpu pobl i oresgyn rhwystrau, magu hyder a chyflawni cyflogaeth gynaliadwy.

Plant sy'n Derbyng Gofal

Rydyn ni wedi gweld gostyngiad o 4% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydwn ni bellach yn y 13eg safle yng Nghymru o ran plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth (mis Mawrth 2026). Mae hyn yn cynrychioli gwelliant o'i gymharu a'r 7fed safle ym mis Medi 2024 ac o fod ymhlith yr uchaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd 586 o blant yn derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf, sy'n is na'r ffigur o 611 a nodwyd yn 2024, 624 yn 2023, 655 yn 2022 a 717 yn 2020, gan ddangos tuedd hirdymor gadarnhaol. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn byw gyda chynhalwyr sy'n berthnasau. Mae hwn yn parhau i fod yn faes cymhleth ac weithiau'n anrhwagweladwy. Ochr yn ochr â thlodi, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl gwael rhieni, mae'r galw hefyd yn cael ei effeithio gan drosglwyddo plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain ac effaith camfanteisio ar blant a theuluoedd.

Rydyn ni wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd fel mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n dechrau derbyn gofal. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni'r pedwar maes datblygu a nodir yn ein Strategaeth Atal ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal 2022/25:



1

Datblygu cymorth i Gynhalwyr sy'n Berthnasau

Fe wnaethon ni barhau i wella ein cynnig i Warcheidwaid Arbennig. Cynyddodd nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig o 333 ym mis Mawrth 2025 i 342 ym mis Mawrth 2026. Disgwylir i gynllun peilot a fydd yn gwneud Gwarcheidiaeth Arbennig yn fwy hygyrch, yn enwedig i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan rwystrau ariannol, gynyddu'r niferoedd ymhellach. Parhaodd cynhalwyr sy'n berthnasau hefyd i elwa o gymorth ychwanegol a gomisiynwyd trwy Kinship Cymru.

Datblygu carfan Cyn-genï: MAGU

Mae Cefnogi Rhieni, ail gam Magu, bellach yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae'n darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i rieni nad yw eu plentyn wedi aros yn eu gofal, gan eu helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol yn y dyfodol. Mae cymorth yn cael ei gynnig mewn tair cam ac mae'n lleihau wrth i rieni symud o ddibynnu ar wasanaethau i gael cymorth gan ddarpariaeth gyffredinol. Mae lleoliadau asesu rhiant a phlentyn yn dal i chwarae rhan lle mae risg uchel, ond mae data'n dangos bod babanod yn fwy tebygol o adael y lleoliadau yma yng ngofal rhiant neu aelod o'r teulu pan fydd y teulu'n cael ei gefnogi gan Magu.

Darparwyd **adroddiad cynnydd** i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2026. Roedd yn cynnwys dwy astudiaeth achos yn dangos effaith gadarnhaol Magu a diweddariad ar Brosiect Gwariant Ataliol y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfyneddion Iechyd (CYBI).

Astudiaeth Achos: Cymorth Cyn-genï (Magu)

Roedd hwn yn achos cyn-enedigaeth risg uchel lle'r oedd hi'n debygol y byddai achos gofal gan arwain at y plentyn yn dod o dan drefniadau gofal y Cyngor. Roedd y ddau riant wedi bod yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Blant o'r blaen oherwydd pryderon eu bod nhw'n esgeuluso eu plentyn hŷn. Oherwydd lefel y risg, rheolwyd achos y baban yn y groth o dan drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a chyfeiriwyd y ddau riant at wasanaeth Magu am gymorth.

Dangosodd yr asesiad cyn-genï fod angen goruchwyliaeth agos, felly ar ôl i'r babi gael ei eni symudodd y teulu i uned breswyl ar gyfer asesu rhiant a phlentyn. Roedd Magu yn rhan o'r broses o'r cam cyntaf i'r cam olaf, gan gefnogi'r ddau riant.

Chwalodd y lleoliad pan gafodd y fam drafferth a gadael, gan greu pwynt penderfynu hollbwysig ar gyfer dyfodol y babi. Gan nad oedd perthnasau yn gallu gofalu am y plentyn, roedd mabwysiadu yn cael ei ystyried. Dewisodd y tad ddod â'r berthynas i ben, aros yn y lleoliad a chael ei asesu fel rhiant sengl. Ymgysylltodd yn dda â'r cymorth oedd ar gael iddo, gan gwblhau gwaith ar berthnasoedd iach, cam-drin domestig a rhianta hyderus. Roedd ei asesiad yn gadarnhaol, ac yn ddiweddarach symudodd gyda'r babi i'w gartref ei hun gyda chefnogaeth ddwys i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd.

Wrth i'r tad ddangos sgiliau rhianta cyson a diogel, cafodd y gefnogaeth ei lleihau'n raddol ar gyflymder a oedd yn addas i'r teulu. Cafodd y babi ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. Cwblhaodd y gwasanaeth yr holl waith a oedd wedi'i gynllunio ond mae'n parhau i fod ar gael tan ben-blwydd cyntaf y plentyn os oes angen. Mae'r achos bellach wedi'i gau, ac mae'r babi yn byw'n ddiogel yng ngofal llawn amser y tad.

Datblygu ein Model Ymarfer

Ym mis Ebrill 2024, yn rhan o waith gweithredu'r Fframwaith Model Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nododd y Gwasanaethau i Blant fod angen rhoi hyfforddiant i staff mewn perthynas â'r Dull Cyfathrebu Cydweithredol. Cefnogodd hyn waith gyda theuluoedd sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n gydweithredol ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i phwyslais ar gydgyhyrchu a deall beth sy'n bwysig i deuluoedd. Fe wnaeth dros 440 aelod o staff gwblhau'r hyfforddiant yma, gan gynnwys yr uwch reolwyr, rheolwyr ac ymarferwyr. Rhoddodd 90% sgôr 'rhagorol' iddo, gydag adborth fel yr enghraifft isod. Nodwyd hefyd bod yr hyfforddiant yn gweddu'n dda â gwerthoedd cymunedol Rhondda Cynon Taf.

“Hyfforddiant gwych. Fe wnes i ei fwynhau'n fawr ac roedd tosturi ac ymrwymiad yr hyfforddwr i'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi yn amlwg. Roedd cynnwys yr hyfforddiant yn glir ac yn rhyngweithiol. Bydd yn sicr o ddylanwadu ar fy ngwaith er gwell.”

Er mwyn ymgorffori Cyfathrebu Cydweithredol yn ein gwaith, cwblhaodd 40 o ymarferwyr hyfforddiant ychwanegol fel mentoriaid. Maen nhw'n hwyluso grwpiau myfyriol ac yn gweithio gyda rheolwyr a'r Rheolwr Arweiniol ar gyfer Ymarfer i dynnu sylw at gryfderau a heriau ar draws gwasanaethau.

Roedd y model hefyd yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma. Hyd yma, mae 97 o ymarferwyr wedi cwblhau'r cwrs. Cyflwynodd staff mewnol y rhaglen gan ddefnyddio adnoddau di-gost gan fenter Straen Trawmatig Cymru, gan fod y Gwasanaethau i Blant yn rhan o'r cynllun peilot.

Fydd hyfforddiant yn unig ddim yn cyflawni'r newid sydd ei angen, felly mae Grŵp Llywio'r Model Ymarfer wedi creu dau is-grŵp: gwaith papur, polisi a gweithdrefnau i alinio systemau â'r dull, a phartneriaid a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol i lunio'r ddarpariaeth a gwelliant parhaus.

Astudiaeth Achos ar y dudalen nesaf




Astudiaeth Achos: Cyfarfodydd Grŵp Teulu

Mae Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn rhan allweddol o'n dull gweithredu. Maen nhw'n helpu teuluoedd i atgyweirio, cynnal a chryfhau perthnasoedd, a gwneud cynlluniau pan fo pryderon ynghylch diogelwch a lles plentyn.

Adolygodd archwiliad hydredol o Gyfarfodydd Grŵp Teulu a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2021 a Mehefin 2023 sefyllfa teuluoedd ddwy flynedd yn ddiweddarach. Roedd yn cwmpasu 58 o deuluoedd, sy'n cynrychioli 58% o'r holl achosion o Gyfarfodydd Grŵp Teulu a gynhaliwyd. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Yn gadarnhaol, canfu'r archwiliad dystiolaeth o ddad-ddwysáu. Roedd 48.3% o deuluoedd (28 achos) bellach ddim yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Blant.
- Roedd 48.3% arall o deuluoedd (28 achos) yn parhau i fod o dan oruchwyliaeth y Gwasanaethau i Blant: Roedd 22.4% (13) heb unrhyw newid mewn statws a 25.9% (15) gyda newid mewn statws.
- O'r 15 teulu a arhosodd dan oruchwyliaeth y Gwasanaethau i Blant gyda newid mewn statws, daeth 9 plentyn o dan Orchmynton Gwarcheidiaeth Arbennig, gan alluogi'r plant i aros gyda'u teulu ehangach ac allan o ofal cyhoeddus.

Yn ogystal â gwella deilliannau i blant a theuluoedd, roedd yr achosion yma'n osgoi cost lleoliadau gofal i'r Cyngor.



Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd

Services for Children & Families

Fe wnaeth y Gwasanaethau i Blant weithio gyda TGP Cymru i sefydlu grŵp rhieni i'r rhai sydd â phrofiad o ymyrraeth statudol i helpu i ddatblygu gwasanaethau. Sefydlwyd y grŵp Chwalu Rhwystrau' ym mis Ionawr 2025 a bydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith yma. Byddwn ni'n gofyn am adborth tebyg hefyd gan rieni sy'n derbyn gwasanaethau ataliol ac adborth gan blant.

Gwella Gwaith Ailuno

Dydy pob plentyn sy'n dod i ofal y Cyngor ddim yn gallu dychwelyd adref, ond mae modd i lawer ohonyn nhw wneud hynny gyda'r cymorth cywir. Yn unol â'n Strategaeth Ailuno ddiwygiedig, fe wnaethon ni barhau i weithio gyda rhieni i ailuno plant yn ddiogel lle bo modd. Yn 2025/26, o'r 156 o blant a adawodd ofal y Cyngor, dychwelodd 84 o'r plant i'w cartrefi teuluol (54%), cynnydd o'i gymharu â'r 79 o 149 o blant a ddychwelodd i'w cartrefi yn 2024/25.

Astudiaeth Achos: Ailuno

Gwnaed atgyfeiriad pan ddaeth mam feichiog yn hwyr i'r gwasanaethau mamolaeth a datgelu bod ei phlentyn hŷn ddim yn ei gofal mwyach. Dangosodd gwiriadau cefndir fod y plentyn wedi cael ei symud o ofal y fam yn rhan o orchymyn gofal oherwydd cam-drin domestig, esgeulustod a diffyg ymgysylltiad y fam â'r cymorth oedd ar gael iddi.

O ystyried yr hanes yma a phryderon cynnar ynghylch cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau yn cynnwys y ddau riant, fe ddechreuon ni achos cyn-ymchwilio ar gyfer y baban yn y groth. Cynigiwyd cymorth wedi'i deilwra i'r ddau riant ar berthnasoedd iach, rhianta, datblygiad plant a chamddefnyddio sylweddau, ond roedden nhw'n amharod i ymgysylltu i ddechrau.

Lluniwyd cynllun i'r babi aros gyda'r rhieni mewn llety teulu estynedig. Serch hynny, nodwyd defnydd sylweddol o sylweddau heb ei ddatgelu trwy brofion cyffuriau, gan wneud y cynllun yn anniogel, ac aeth y baban i ofal maeth yn fuan ar ôl ei eni.

Er gwaethaf y dechrau anodd yma, fe wnaeth y ddau riant ymgysylltu'n dda yn ddiweddarach. Fe wnaethon nhw fynychu amser teuluol bob dydd, gweithio'n gyson gyda'r Garfan Rhianta a'r Gwasanaeth ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, gwella eu perthynas, cynnal ymataliaeth a sicrhau tŷ addas.

Yn dilyn asesiad ôl-enedigol cadarnhaol, cafodd y babi ei adsefydlu'n raddol gartref. Parhaodd cymorth arbenigol ar ôl yr ailuno a chafodd ei leihau wrth i'r rhieni gynnal eu cynnydd.

Tua phen-blwydd cyntaf y plentyn, caewyd yr holl wasanaethau'n llwyddiannus. Daeth yr achos i ben gyda'r plentyn yn ddiogel yng ngofal y rhieni, yn dilyn newid cadarnhaol ystyrllon a pharhaus.

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethon ni greu carfan Plant sy'n Derbyn Gofal a charfan i bobl ifainc 14+ newydd i gynyddu nifer y plant hŷn sy'n cael eu hailuno a'u teuluoedd. Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, rhyddhawyd gorchmynion gofal ar gyfer 10 o blant a leolwyd gyda rhieni cyn eu pen-blwydd yn 18 oed. Mae hyn yn uwch na'r 6 a ryddhawyd yn 2023/24, ond yn is na'r 15 yn 2024/25.

Fy Llais, Fy Adolygiad

Yn 2025/26, cwblhaodd 352 o blant ymgynghoriad 'Fy Llais Fy Adolygiad', sy'n cynrychioli 27.13% o'r 1,297 o adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â'r 250 y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn adlewyrchu gwaith i godi ymwybyddiaeth o rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol a dogfennau ymgynghori. Dywedodd 31 o blant eu bod nhw am siarad â Swyddog Adolygu Annibynnol y tu allan i'r adolygiad, ac roedd 184 (53.8%) yn bwriadu mynd i'w cyfarfod. Mae'r ddau ffigwr yma'n uwch na'r llynedd.

O'r 352 o blant a gwblhaodd yr ymgynghoriad, dywedodd 44.89% eu bod nhw ddim eisiau mynd i'w hadolygiad ac roedd 8.1% eisiau cyfarfod â'u Swyddog Adolygu Annibynnol ymlaen llaw. Roedd y rhesymau'n cynnwys ddim yn gwybod, teimlo'n rhy ifanc, teimlo'n nerfus, roedden nhw'n rhy brysur, neu roedden nhw'n gweld cyfarfodydd yn ddiflas neu'n rhy hir. Dywedodd rhai plant y gallai eu rhiant maeth neu eu gweithiwr cymdeithasol siarad ar eu rhan. Pan ofynnwyd iddyn nhw am eiriolaeth, roedd yn well gan rai ohonyn nhw siarad drostyn nhw eu hunain neu fe wnaethon nhw nodi gweithwyr proffesiynol, aelodau o'r teulu neu oedolion eraill roedd y plentyn yn ymddiried ynddyn nhw i siarad ar eu rhan.



Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

Fe wnaethon ni barhau i gefnogi teuluoedd yn gynnar i feithrin cydnerthedd a lleihau'r angen am wasanaethau statudol. Yn 2025/26, buon ni'n gweithio gyda 1,131 o deuluoedd, a nododd 86% ohonyn nhw (978) eu bod nhw'n fwy cydnerth ar ôl cwblhau gwaith gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Roedd hyn ychydig yn is nag yn 2024/25, pan nododd 88% (1,034) eu bod nhw'n fwy cydnerth. Dim ond yn achos 3.4% o'r plant a'r bobl ifainc a gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yr oedd angen ymyrraeth statudol gan y Gwasanaethau i Blant, gan dynnu sylw at ei effaith gadarnhaol barhaus.

Astudiaeth Achos ar y dudalen nesaf



Mae Teulu B yn cynnwys mam a'i thri phlentyn, Plentyn B (12 oed), Plentyn C (11 oed) a Phlentyn D (9 oed), sy'n byw yn eiddo'r fam gu a'r tad cu ar ochr y fam. Atgyfeiriwyd y teulu oherwydd pryderon bod Plentyn B yn cymryd gormod o gyfrifoldeb gartref oherwydd bod ieuchyd meddwl y fam yn dirywio. Roedd hi'n derbyn cymorth gan y garfan Iechyd Meddwl, roedd hi i ffwrdd o'r gwaith, ac yn cael trafferth gyda thasgau byw bob dydd. Roedd ffactorau amddiffynnol yn cynnwys cyd-riantu cryf gan dad y plant, sy'n gofalu amdany'n nhw bob yn ail wythnos. Mae gan Plentyn C anghenion dysgu ychwanegol, a gofynnodd y fam am gymorth gydag addysg.

Cytunwyd ar gynllun teuluol gyda thri blaenoriaeth:

1. Plentyn C – Addysg

Cysylltwyd â'r ysgol a'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i asesu'r angen. Cyflwynwyd strategaethau gan gynnwys troshaen lliw glas a sillafu math-cyffyrddol (touch-type) yn yr ysgol a'r cartref. Rhannwyd strategaethau cymorth cyffredinol, a bydd profion statudol yn y dyfodol yn llywio unrhyw gymorth pellach. Rhannwyd adborth gyda'r fam.

2. Y Fam – Lles Emosiynol a Chydnerthedd

Cafodd ei chefnogi i fynychu apwyntiadau gyda'r meddyg teulu a'r seiciatrydd, gan arwain at newidiadau i'w meddyginiaeth, cwsgr gwell a chymorth gan Nyrs Iechyd Meddwl. Cymerodd y fam ran hefyd mewn cyrsiau ADCG a lles, gwnaeth gais i'r gwasanaeth Ceisio Cartref, a chafodd ei chefnogi gydag Ailystyriaeth Orfodol ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol ac atgyfeiriad i wasanaeth rhoi'r gorau i gamblo. Roedd ymweliadau ddwywaith yr wythnos yn canolbwyntio ar gymhelliant a sefydlogrwydd emosiynol, gan arwain at welliannau mewn hwyliau, hyder a rhagolygon.

3. Arferion Dyddiol ac Amgylchedd y Cartref

Helpodd cymorth ymarferol y teulu i lanhau, trefnu a chynnal a chadw'r cartref gan ddefnyddio arferion gweledol. Sicrhawyd cyllid ar gyfer peiriant golchi dillad newydd, dillad gwely a gwely i Plentyn B. Mae'r fam a'r plant bellach yn rhannu cyfrifoldebau yn y cartref mewn ffordd fwy priodol a chyson.

Lleihaodd yr ymyrraeth bryderon ynghylch diogelu drwy adfer cyfrifoldeb rhiant priodol, gwella amgylchedd y cartref a sefydlogi ieuchyd meddwl y fam. Nododd fod ei lles wedi gwella, ei bod hi'n profi llai o unigedd ac yn dymuno dychwelyd i waith rhan-amser. Mae anghenion y plant, yn enwedig cymorth addysgol ar gyfer Plentyn C, bellach yn cael sylw priodol. Dangosodd y fam fwy o fewnwelediad i'w rôl fel rhiant ac effaith ei lles ar ei phlant.

Nododd y fam: *“Fyddwn i ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd mewn cyn lleied o amser hebddoch chi. Rydych chi wedi gwneud popeth i fy helpu. Rydych chi wedi bod yn gymorth enfawr i ni. Rydw i'n meddwl yn gadarnhaol am y dyfodol yn hytrach na chael fy ngholli mewn amser. Rydw i'n meddwl am fynd yn ôl i'r gwaith am gwpl o oriau. Mae'r plant yn fy nghadw i fynd. Maen nhw'n gwneud i mi eisiau bod yn well. Mae'r help yma yn y pen draw er budd fy mhiant.”*

Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:

“Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl”

“Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal”

Mae'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â Phartneriaethau ac Integreiddio roedden ni wedi bwriadu eu cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant yn 2025/26, ac rydyn ni wedi llwyddo eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yma, i'w gweld yn y tabl isod.

Blaenoriaethau rydyn ni wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithredu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig sy'n gallu cydlyn ymagwedd effeithiol a di-dor, naill ai fel ymateb brys i salwch aciwt neu argyfwng neu i reoli anghenion iechyd cronig a hirdymor ac anghenion gofal cymdeithasol. Yn gysylltiedig â hyn mae dull integredig o gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.

Ein Strategaeth 'Cymorth Cywir, Amser Cywir, Lle Cywir' i ailgynllunio ein 'drws ffrynt' ochr yn ochr â rhanddeiliaid i fod yn wasanaeth cynaliadwy gydag ymateb cryf sy'n canolbwyntio ar atal.

Rydyn ni'n gweithredu mewn gofod hynod gydgysylltiedig ac rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â gwaith partneriaeth ystyrlon gydag ystod eang o sefydliadau a phobl ar lefel unigol a strategol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant wedi parhau i chwarae rhan sylweddol yn y byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r grwpiau partneriaeth, gan ddod ag arweinyddiaeth a threfniadau craffu effeithiol iddyn nhw. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau ymatebol o ansawdd uchel. Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ar lefel unigol a strategol i wella gwasanaethau a chyflawni mesurau effeithlonrwydd.

Oedi yn y Llwybr at Ofal

Cyflwynwyd **adroddiad ar Oedi yn y Llwybrau at Ofal** i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2025. Gostyngodd y nifer oedd wedi cael eu heffeithio gan oedi yn y llwybr at ofal o 152 ym mis Mawrth 2025 i 117 ym mis Mawrth 2026, tra bod cyfanswm y dyddiau a oedd wedi'u gohirio wedi gostwng yn fwy amlwg o 10,443 i 8,579. Dangosodd hyn fod cyflawniad yn gwella a bod Rhondda Cynon Taf yn rhagori ar dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dangosyddion yma. Dangosodd cyflawniad o ran ffigyrau oedi yn y llwybr at ofal yn y meysydd hynny sy'n cael eu dylanwadu fwyaf gan leoli staff gofal cymdeithasol a chomisiynu gofal fod:

- **Oedi wrth ddyrannu gwaith cymdeithasol yn parhau i fod yn isel.**
- **Cynnydd bach i'w weld o ran oedi mewn asesiadau Gofal Cymdeithasol o fis Mawrth 2025 ond roedden nhw'n sefydlog drwy gydol y flwyddyn ac ni chyflawnwyd y targed rhanbarthol o ostyngiad o 20%.**

- **Iefelau oedi wrth geisio gofal yn y cartref wedi parhau i ostwng, gan adlewyrchu effaith gadarnhaol y newidiadau i drefniadau comisiynu gofal yn y cartref. Gostyngodd y niferoedd o 49 ym mis Hydref 2024 i 11 ym mis Mawrth 2025, ac i 4 o bobl yn aros yn yr ysbyty ym mis Mawrth 2026.**
- **Oedi cynnar wrth geisio lle mewn llety gofal dementia a gofal preswyl cyffredinol yn adlewyrchu'r adolygiad o gartrefi gofal a chau Cartref Preswyl Caeglas yng Ngwanwyn 2025. Er hyn, mae lefelau cyflawniad wedi gwella ers hynny ac mae oedi o ran argaeledd lleoedd cartrefi gofal bellach yn sefydlog.**

At ei gilydd, gwellodd y cyfraddau oedi yn y llwybr at ofal a hyd yr arhosiad yn gyson yn ystod y flwyddyn i drigolion Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y dull 'Cartref yn Gyntaf' a chyflawniad darparwyr gofal yn y cartref.

Astudiaeth Achos: Llwybr 1 – Osgoi oedi wrth ryddhau o'r ysbyty

Mae Mrs E, 93, yn byw gyda'i merch sy'n oedolyn. Ar ôl cwmpo a chyfnod hir o beidio symud, cafodd ei derbyn i'r ysbyty gyda dirywiad amlwg mewn symudedd, cryfder, ymataliaeth ac annibyniaeth. Cyn ei derbyn i'r ysbyty, roedd hi'n ymdopi'n annibynnol gyda chymorth anffurfiol gan ei theulu yn unig.

Pan oedd hi'n feddygol iach i gael ei rhyddhau, roedd yn amlwg ei bod Mrs E angen gofal a chymorth tymor hwy doedd dim modd iddi hi na'i theulu eu darparu ar eu pen eu hunain. Gweithiodd staff yr ysbyty gyda Mrs E a'i theulu i wneud cynllun i'w rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel a chyflwyno atgyfeiriad trosglwyddo gofal electronig i garfan Pwynt Mynediad Sengl y Cyngor. Cafodd yr atgyfeiriad ei flaenoriaethu a'i anfon at y Garfan Broceriaeth a'r Garfan Rheoli Gofal Tymor Byr. Yna trefnodd darparwr gofal lleol becyn gofal a dyddiad cychwyn, gan alluogi Mrs E i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Ar ôl cyrraedd adref, cwblhaodd rheolwr gofal asesiad ar gyfer oedolyn a'r gwaith papur ar gyfer ei phhecyn gofal hirdymor. Yna trosglwyddwyd Mrs E i'r garfan gofal hirdymor perthnasol ar gyfer adolygiad blynyddol parhaus.

Mae'r garfan Cadw'n lach Gartref, sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysog Siarl, yn cynnwys gweithwyr therapi galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol sy'n asesu pobl mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac Unedau Clinigol. Eu nod yw osgoi derbyniadau diangen i wardiau a chefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty mewn modd amserol, gyda gofal canolraddol, lle bo angen, i helpu pobl i adennill annibyniaeth yn eu bywydau bob dydd. Mae'r garfan Cadw'n lach Gartref yn gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn nes 20:00.

Astudiaeth Achos: Cadw'n lach Gartref

Aeth Mrs F i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda'i merch ar ôl iddi gwmpo am y drydedd dro mewn wythnos. Er yr oedd hi'n feddygol iach i gael ei rhyddhau, roedd pryderon ynghylch ei diogelwch gartref. Roedd hi'n byw ar ei phen ei hun mewn fflat ar y llawr uchaf, yn cwmpo'n aml, doedd hi ddim yn cymryd ei meddyginiaeth ar bresgripsiwn, roedd hi'n cael trafferth gyda thasgau dyddiol oherwydd arthritis, roedd ganddi anawsterau gydag ymataliaeth, ac roedd hi'n wynebu peryglon gan gynnwys rygiau a gadael y popty ymlaen.

Asesodd y garfan Cadw'n lach Gartref yn gyflym ei dymuniad i ddychwelyd adref ac aros yn annibynnol a nododd yr angen am sawl mesur cefnogol. Darparodd y garfan offer, gan gynnwys comôd, stolion eistedd a chadi i roi cymorth iddi gerdded. Gwnaed atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Teleofal, y gwasanaeth Gofal yn y Cartref, Therapi Galwedigaethol yn y Gymuned a'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cynnal asesiad cynhaliwr ar gyfer ei merch. Rhoddwyd cyngor hefyd ynghylch lleihau peryglon baglu a thrafodaeth ynghylch cymorth posibl, megis y gwasanaeth Pryd-ar-glud.

Oherwydd yr ymateb cyflym a chydlynol yma, llwyddwyd i osgoi derbyn Mrs F i'r ysbyty ac roedd hi'n gallu dychwelyd adref yn ddiogel yr un diwrnod, gan ddangos gwerth ymyrraeth gynnar a gweithio integredig.

Mae pobl yn aml yn mynegi eu diolch am gael eu cefnogi i ddychwelyd adref, adennill hyder, a chynnal eu hannibyniaeth. Mae tosturi, proffesiynoldeb a dull cydweithredol Cadw'n lach Gartref yn cael eu canmol dro ar ôl tro. Roedd yr adborth yn cynnwys:

"Diolch i chi am ddeall a pheidio â rhoi pwysau arna i."

"Diolch am yr holl gymorth gyda fy nhad. Rydych chi'n wasanaeth hanfodol."

"Roeddech chi'n gwrtais ac yn broffesiynol iawn. Diolch am bopeth."

"Gwasanaeth cyflym iawn. Diolch yn fawr."

"Mae wedi bod yn anhygoel. Rydych chi i gyd wedi bod yn wych."

"Rhoddoch chi hyder i mi ddefnyddio'r grisiau. Diolch yn fawr iawn."

"Rydw i mor falch fy mod i wedi cael fy asesu. Dw i'n meddwl y bydd y teclyn codi cyson yn fy nghartref yn wych i mi a fy ngwraig ar y dyddiau sydd ddim mor dda. Diolch yn fawr am eich cymorth. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at fynd adref."

"Dwi mor falch ei fod e'n well nag yr oedd pan aeth i mewn. Diolch yn fawr iawn am bopeth rydych chi wedi'i wneud er mwyn iddo ddod adref. Diolch i chi i gyd. Ardderchog."

System Gofal yn y Gymuned Integredig

Cafodd y model a'r cytundeb partneriaeth eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r cytundeb partneriaeth yn gam mawr tuag at wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'n adlewyrchu cryfder ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg ac awdurdodau lleol rhanbarthol cyfagos a'n nod cyffredin o gael cymorth ddi-dor, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw gydag eiddilwch. Yng Ngham 1, fe wnaeth carfanau'r Gwasanaethau i Oedolion alinio â'r model newydd.

Gwasanaethau i Blant

Strategaeth 'Cymorth Cywir, Lle Cywir, Amser Cywir'

Ym mis Ebrill 2024, cymeradwyodd y Cabinet ein Strategaeth 'Cymorth Cywir, Lle Cywir, Amser Cywir'. Roedd oedi o ran cynnydd y strategaeth yma yn ystod 2025 tra bod adolygiad Cyngor cyfan mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar a mesurau atal ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifainc yn cael ei gynnal. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ddiweddarach yn yr adroddiad yma. Ailgydiwyd yn y gwaith yn rhan o brosiect gwella digidol ar gyfer carfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau i Blant. Ochr yn ochr ag

agenda atal y Cyngor, creodd hyn gyfleoedd i symleiddio prosesau a lleihau nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â theuluoedd.

Yn 2025/26, derbyniodd ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth 27,406 o gysylltiadau, 3% yn llai na'r 28,372 a dderbyniwyd yn 2024/25. O'r rhain, aeth 4,376 (16%) ymlaen i asesiad cymesur; cafodd 488 eu hatgyfeirio at garfanau Ymyrraeth Ddwys ac ni arweiniodd 3,223 at unrhyw gamau pellach na chyfeirio at wasanaethau eraill.

Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol

Mae camfanteisio'n effeithio ar oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gyda rhai grwpiau, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, yn wynebu mwy o berygl. Mae'n cynnwys trin neu gam-drin rhywun er budd person arall a gall fod yn gysylltiedig â chamfanteisio ariannol, rhywiol neu droseddol arall.

Lansiwyd Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol Cwm Taf Morganwg ar 1 Medi 2025, gyda ffocws cychwynnol ar gamfanteisio ar blant. Mae adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y Strategaeth, canllawiau, pecynnau cymorth a chynlluniau diogelwch, ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morganwg.

Cafodd Hyfforddiant Camfanteisio a Thrais Difrifol yn Rhondda Cynon Taf ei gyflwyno i Aelodau Etholedig a staff y Gwasanaethau i Blant yn ystod sesiynau Diogelu Blynyddol 2025. Cafodd ei ddefnyddio eto gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morganwg yn ystod Wythnos Diogelu ym mis Tachwedd 2025. Roedd yn ymdrin â chyd-destunau niwed, meithrin perthynas amhriodol, bod yn agored i niwed, dangosyddion, yr effaith ar ddioddefwyr, iaith sy'n beio dioddefwyr, a phrofiad bywyd plentyn a riant. Fe wnaethon ni hefyd barhau i gyfrannu at Rwydwaith Camfanteisio Cymru Gyfan a'r Bartneriaeth Thematig ar faterion Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol (CSE) a chynllun rheoli risg cenedlaethol (MoRiLE) Heddlu De Cymru.

Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:

“Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed”

“Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw’n annibynnol cyhyd â phosibl”

Mae'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â Lles roedden ni wedi bwriadu eu cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant yn 2025/26, ac rydyn ni wedi llwyddo eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yma, i'w gweld yn y tabl isod.

Blaenoriaethau rydyn ni wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

Darparu gwasanaeth asesu effeithiol i gynorthwyo pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Lle mae angen rhestrau aros am asesiad, byddwn ni'n adolygu'n barhaus yn unol â meini prawf risg y cytunwyd arnyn nhw ac yn sefydlu prosesau uwchgyfeirio i ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ac sydd â'r risg fwyaf o niwed.

Buddsoddi mewn offer digidol a chymunedol i gefnogi a lleihau'r galw am ofal ffurfiol, gan ddatblygu ein cynnig technoleg gynorthwyol i alluogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

Sicrhau bod pob person ifanc sydd angen gofal preswyl yn RhCT yn derbyn gofal mewn lleoliad o safon uchel yn agos at ei gartref. Bydd modd i'r bobl ifainc ffynnu yn y lleoliad, gan dderbyn gofal gan garfan sefydlog sydd â chefnogaeth gadarn. Bydd y garfan yn cynnwys staff medrus sydd â chymeriad gwydn. Mae'r gwaith yn cynnwys 2 faes cyd-ddibynnol:

- Maethu Cymru
- Strategaeth Llety a Chymorth ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal

Comisiynu Gofal yn y Cartref

Ym mis Hydref 2024, newidiodd trefniadau comisiynu gofal yn y cartref, gyda phum darparwr wedi'u penodi ar draws chwe lleoliad yn Rhondda Cynon Taf. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar flwyddyn gyntaf y trefniadau newydd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2025.

Nod y trefniadau comisiynu newydd sy'n seiliedig ar leoliad oedd symleiddio'r defnydd, a oedd wedi dod yn rhy gymhleth o dan drefniadau

blaenorol, gyda staff yn teithio pellteroedd hir rhwng galwadau a gormod o ddibyniaeth ar geir. Awgrymodd data cychwynnol a gasglwyd fod hyn wedi bod yn llwyddiannus, er y gallai ffactorau eraill fod wedi cyfrannu hefyd. Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiad yn y rhestrau aros ar gyfer gofal yn y cartref rhwng Medi 2024, Medi 2025 a Mawrth 2026.

	Medi 24	Medi 25	Maw 26
Nifer y bobl sy'n aros am becyn gofal yn y cartref (ysbyty)	40	5	8
Nifer y bobl sy'n aros am becyn gofal yn y cartref (yn y gymuned)	36	9	11
Yr amser hiraf y bu'n rhaid aros am becyn (dyddiau)	81	12	7
Yr amser byrraf y bu'n rhaid aros am becyn (dyddiau)	4	0	0
Amser aros cyfartalog am becyn (dyddiau)	34.5	4.2	3

Yn ystod yr un cyfnod roedd gweithgarwch y gwasanaeth wedi cynyddu o tua 13,780 awr o ofal yn y cartref ym mis Medi 2024 i 15,220 awr ym mis Medi 2025 ac i 17,243 ym mis Mawrth 2026.

Cafodd y trefniadau comisiynu gofal yn y cartref newydd eu diwygio hefyd i gefnogi dull cartref-yn-gyntaf ar gyfer rhyddhau cleifion llwybr 1. O ganlyniad, gwellodd y ffigyrau ar gyfer oedi yn y llwybr at ofal a hyd yr arhosiad yn gyson i'n trigolion yn ystod y trefniadau newydd, fel y dangosir yn y tabl isod. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y model cartref yn gyntaf a chyflawniad darparwyr gofal yn y cartref.

Medi 2024	Cyfanswm yr achosion lle bu oedi - 235	Hyd yr arhosiad yn yr ysbyty - 14,421 diwrnod
Medi 2025	Cyfanswm yr achosion lle bu oedi - 119	Hyd yr arhosiad yn yr ysbyty - 7,068 diwrnod
Mawrth 2026	Cyfanswm yr achosion lle bu oedi - 95	Hyd yr arhosiad yn yr ysbyty - 7,368 diwrnod

Er mwyn monitro ein trefniadau comisiynu gofal yn y cartref, cynhaliwyd arolwg gyda'r bobl a oedd yn derbyn gofal yn y cartref ym mis Medi 2025. Dim ond hyn a hyn o bobl a ymatebodd i'r arolwg, gyda 85 o yn dychwelyd yr arolwg (5% o'r sawl a dderbyniodd yr arolwg).

Awgrymodd yr ymatebion fod llawer o bobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu trin ag urddas ac yn cael eu cefnogi i aros gartref, ond roedd hyn wedi'i effeithio gan broblemau cyfathrebu, newidiadau mynych mewn gweithwyr gofal, a phryderon ynghylch dibynadwyedd a pharodrwydd staff. Dangosodd y canfyddiadau hefyd yr angen i wella'r cymorth sydd ar gael i helpu pobl i aros yn annibynnol, cysylltiad cymunedol, a mynediad at wybodaeth a chyngor. Roedden ni'n disgwyl i hyn gymryd mwy o amser, gan y bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol ar draws staff gwaith cymdeithasol, darparwyr, defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr. Er nad oedd yn gwbl gynrychioliadol, rhoddodd yr arolwg fewnwelediad defnyddiol i brofiadau pobl ac mae'n llywio gwelliannau ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a darparwyr.

Mentrau Digidol / Technoleg Newydd

Fe wnaethon ni barhau i ehangu'r defnydd o dechnoleg i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl a'u teuluoedd. Mae'r cynnydd yn cynnwys Strategaeth Technoleg Yn Gyntaf y Gwasanaethau i Oedolion, cynllun hyfforddi ategol, a'r Ganolfan Ymateb i Larymau newydd, a aeth yn fyw ym mis Medi 2025. Eleni fe wnaethon ni hefyd ddatblygu ffurflen ymholiadau ddigidol ar gyfer gwasanaethau drws ffrynt, gan gynnwys y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, i helpu pobl i gael mynediad at gymorth yn gyflymach a darparu gwybodaeth glir am eu hanghenion a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw o'r cychwyn cyntaf.

Defnyddio Copilot i leihau'r baich gweinyddol

Gan weithio gyda Chynghorau Abertawe a Sir Gâr, rydyn ni'n defnyddio Microsoft Copilot i wella gweithrediadau mewnol, gwasanaethau cwsmeriaid ac ansawdd gofal i'n trigolion mwyaf agored i niwed.

Mae gwasanaethau gofal wedi'u hadeiladu ar eiliadau dynol, megis ymweliadau â chartrefi, sgysiau anodd a phenderfyniadau ynghylch cymorth, ond mae pob un hefyd yn creu gwaith gweinyddol.

Rhaid ysgrifennu nodiadau. Rhaid cwblhau asesiadau anghenion a risg. Rhaid adolygu hanes yr achosion dan sylw, eu gwirio a chofnodi trawsgrifiadau ar ffurf ddigidol.

Mae Microsoft 365 Copilot (AI cynhyrchiol) yn lleihau'r baich yma ac yn caniatáu i staff ganolbwyntio mwy ar yr eiliadau dynol sy'n bwysig.

Mae Microsoft 365 Copilot bellach yn cael ei ddefnyddio gan tua 350 o staff, felly mae asesiadau anghenion yn cael eu cwblhau bron bedair gwaith yn gyflymach, mae adolygiadau sy'n ymwneud â nodiadau achos fwy na dwywaith yn gyflymach, ac mae modd cwblhau bron ddwywaith cymaint o asesiadau risg mewn awr.

Mae staff hefyd wedi nodi manteision cadarnhaol: Mae 86% yn dweud bod ansawdd allbwn wedi gwella, mae 50% yn dweud bod eu lles wedi gwella, ac mae 75% yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu swydd.

Yn lle gweithio ar wahân, mae'r Cynghorau yma'n cydweithio i gyflymu effaith trwy rannu dysgu, dulliau a ffyrdd o leihau gwallau a gwella cysondeb, gan gynnwys cynnal achlysuron Promptathon ac Agentathon ar y cyd. Mae'n fodel cryf: dysgu unwaith, elwa dro ar ôl tro.

Yn 2025/26, cafodd 375 darn o dechnoleg newydd eu gosod i gefnogi byw'n annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys gosod 72 o becynnau teleofal annibynnol yn gysylltiedig â chynlluniau gofal a chymorth, a gosod 303 o becynnau teleofal wedi'u monitro trwy becynnau Llinell Fywyd. Fe wnaeth hyn helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref trwy eu cysylltu â Chanolfan Fonitro'r Gwasanaeth Llinell Fywyd mewn sefyllfaoedd brys fel cwympiadau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 3,981 o gysylltiadau Llinell Fywyd byw.

Canolfan Lywio'r Ymatebwr Symudol

Gan ddatblygu ar ein Gwasanaeth Gwifren Achub Bywyd, fe barhaon ni i ddarparu Gwasanaeth Ymateb Symudol bob dydd o'r flwyddyn. Mae'n ymateb i larymau'r Wifren Achub Bywyd, yn lleihau'r galw ar Wasanaeth Ambiwylans Cymru, ac yn helpu o ran osgoi gorfod bod yn yr ysbyty heb fod angen, mae hefyd yn gefn i bobl aros yn eu cartrefi, yn ddiogel.

Yng Ngwanwyn 2025, fe lansion ni brosiect peilot gyda'r Hwb Llywio i Feddygon Teulu fel bod modd i Ymatebwyr Symudol gynorthwyo pobl oedd heb Wifren Achub Bywyd a oedd wedi cwmpo ac yn aros am ambiwlans. Cafodd y prosiect peilot ei ymestyn o un ardal yn Rhondda Cynon Taf, i'r sir yn ei chyfanrwydd, gan helpu pobl oddi ar y llawr yn ddiogel a lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Yn sgil y prosiect hefyd, roedd y Wifren Achub Bywyd yn cael ei chynnig i helpu o ran osgoi aros yn y dyfodol. Cynyddodd niferoedd y cwsmeriaid Gwifren Achub Bywyd i 4,073, o'i gymharu â 3,896 ddiwedd mis Mawrth 2025.

Yn 2025/26, derbyniodd y Gwasanaeth 4,950 galwad; roedd 2,634 ohonyn nhw'n achosion o gwmpo gartref. Gan ddefnyddio offer codi arbenigol, roedd modd osgoi 92% o achosion o gludo i'r ysbyty ar sail cwmpo, ac fe gyrhaeddodd 87% o'r ymatebion o fewn yr awr – sef y targed.

O fis Ionawr 2026, fe ehangodd prosiect peilot tri mis o hyd Wasanaeth Ymateb Symudol Rhondda Cynon Taf fel bod modd iddo ymateb i achosion o gwmpo ymhlith defnyddwyr Gwifren Achub Bywyd ym Merthyr Tudful. Y nod o ran y trefniant yma rhwng y ddau Gyngor a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd cyflenwi cymorth â chysondeb ledled Cwm Taf Morgannwg, lleihau derbyn i'r ysbyty'n ddiangen, a lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Yn rhan o'r prosiect peilot, roedd cyllid ychwanegol at ddibenion cryfhau'r gwasanaeth ar gyfer trigolion yn y ddwy ardal.

Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Ymateb Symudol

Defnyddiodd Mr W ei gadwyn Gwifren Achub Bywyd wedi iddo gwmpo gartref. Gofynnodd y ganolfan i'r ymatebwyr symudol fynd i'w gartref, cwblhau asesiad I Stumble ac, os oedd hynny'n briodol, ei helpu i godi.

Aeth yr ymatebwyr i mewn i gartref Mr W drwy ddrws agored a'i ganfod yn eistedd ar ben y grisiau. Roedd ganddo broblemau symud sylweddol a doedd dim modd iddo gynnal ei bwysau ei hun. Chafodd yr un anaf ei nodi o dan yr asesiad I Stumble. Roedd cadair Raiser yn gymorth i'w godi i fod yn eistedd ar i fyny. Yna fe gynorthwyodd yr ymatebwyr Mr W i'w wely, gan gynnwys codi ei goesau yn sgil y ffaith ei fod yn amlwg yn wan. Cynghorydd yr ymatebwyr Mrs W i gysylltu â'u meddyg teulu'r bore canlynol.

Gan nad oedd gyda Mr a Mrs W drefniant cynhalwyr (gofalwyr) ar waith ac i Mrs W roi gwybod ei bod hi'n cael pethau'n anodd, cafodd cais ei wneud am asesiad llesiant. Cafodd Mr W gymorth o fewn 17 munud, gan gynnwys asesiad, tawelwch meddwl, cymorth diogel i gyrraedd ei wely a chynghor clir ynghylch y camau nesaf. Yn ystod yr ymateb cafodd anghenion ehangach eu nodi, gan gynnwys straen ar gynhaliwr a diffyg gofal swyddogol, a chafodd atgyfeiriad ei wneud at ddibenion mynd i'r afael â'r peryglon hirdymor.

Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

Yn 2025/26, adolygon ni drefniadau rheoli cyflawniad yn y garfan Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn delio â phwysau parhaus o ran rhestrau aros.

Helpodd hyn i nodi meysydd i'w gwella, atgyfnerthu'r fframwaith cyflawniad, a symleiddio prosesau'r garfan. Ehangon ni gapasiti'r Aseswr Lles Gorau, drwy garfanau lleol a staff asiantaeth, gan gyflwyno cymorth cymheiriaid a defnyddio cyllid grant i ehangu craffu drwy rolau Gweithwyr Cymorth Personol.

Er y datblygiadau, a chynnydd mewn cwblhau asesiadau o 57 yn chwarter 4 2024/2025 i 101 yn ystod yr un cyfnod yn 2025/26, arhosodd rhestr aros y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yr un fath, sef 515 person fis Mawrth 2026.

Parhaodd atgyfeiriadau i gyd-fynd â chyfraddau asesu a rhyddhau cleifion, neu fod uwchlaw hynny pob mis.

Parhaodd y galw yn y Garfan Diogelu Oedolion yn uchel yn 2025/26:

- Cafwyd 1,969 adroddiad oedolyn yn wynebu perygl, o'i gymharu â 1,526 y flwyddyn flaenorol.
- Aeth 1,009 adroddiad diogelu ymlaen i fod yn ymholiadau adran 126, o'i gymharu â 744 y flwyddyn flaenorol.
- Cwblhawyd 84.2% o fewn saith diwrnod gwaith, o'i gymharu â 80%; mae hyn yn adlewyrchu rhagor o staff a rhagor o sefydlogrwydd a phrofiad yn y garfan.
- Cafwyd 247 atgyfeiriad pryder proffesiynol, o'i gymharu â 289 yn flaenorol. Arweiniodd 64.78% at drafodaeth strategol, datblygodd 45 yn Gyfarfod Strategaeth, a chafodd 3 eu cadarnhau. Mae rhai achosion ar agor o hyd tra mae'r heddlu'n cynnal ymchwiliadau.
- Rheolwyd un darparwr cartref gofal gymorth ar sail arwain drwy bryderon oedd yn cynyddu.

Cafodd cynnydd parhaol o ran staffio ei gytuno arno i helpu gyda'r cynnydd mewn gweithgarwch ers i'r garfan gael ei sefydlu gyntaf, yn enwedig yn sgil pryderon proffesiynol.

Astudiaeth Achos: Oedolyn sy'n wynebu Perygl

Y bobl sy'n rhan o bethau (dyw'r rhain ddim yn enwau go iawn): John (diagnosis o dementia a chanser); Phillip (mab a throseddwr honedig); Kathleen (gwraig, ddim yn oedolyn sy'n wynebu perygl, ond yn oedolyn sy'n agored i niwed); a Helen (merch, ddim yn oedolyn sy'n wynebu perygl). Cyrhaeddodd atgyfeiriad gan yr heddlu Y Garfan Diogelu Oedolion wedi i John a Kathleen gael eu cam-drin yn gorfforol ac yn ariannol gan Phillip. Er i Phillip gael ei arestio, roedd Kathleen a Helen yn gyndyn o roi datganiadau ar y dechrau gan eu bod nhw'n ofni y bydden nhw'n wynebu rhagor o gam-drin yn sgil gwneud hynny. Roedd pryderon bod y cam-drin wedi bod yn digwydd ers amser. Doedd y teulu heb ddod i sylw'r gwasanaeth yn flaenorol. Roedd yn aneglur sut roedd dementia a chanser John yn effeithio ei allu dyddiol i gadw'i hun yn ddiogel neu fynegi ei ddymuniadau ynghylch arestio Phillip. Roedd pryderon hefyd bod y teulu heb fod yn rhannu gwir faint y cam-drin, a'u bod nhw'n gyndyn o geisio cymorth. Yn sgil y pryderon ynghylch cam-drin domestig, cafodd yr achos ei drafod mewn Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Cafodd eiriolwr materion cam-drin domestig ei gynnig ond cafodd ei wrthod. Cadarnhaodd ymholiadau adran 126 bod John yn oedolyn oedd yn wynebu perygl, a chafodd cyfarfod strategaeth ei gynnal. Cafodd John gynnig asesiad gofal a chymorth, a chafodd Kathleen gynnig asesiad cynhaliwr. Dangosodd y cyfarfod fod ar y teulu eisiau cymorth ar gyfer Phillip yn sgil ei iechyd meddwl a'i anghenion cam-drin sylweddau; roedd hyn yn esbonio pam eu bod yn gyndyn ar y dechrau i fynd ar drywydd cwyn. Gofalodd gweithwyr proffesiynol bod Phillip yn cael cymorth pwrpasol, galluogodd hyn y teulu i fwrw ymlaen â chwyn yr heddlu. Cafodd amodau'r fechniaeth eu hesbonio a'u monitro gyda'r heddlu ac asiantaethau partner at ddibenion lleihau perygl pellach. Parhaodd John, Kathleen a Helen i fod o blaid y gwyn, a chafodd cynllun gofal a chymorth ei roi ar waith â monitro gweithredol gan y garfan Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Gwasanaethau i Blant

Ar gyfer plant sydd heb fod yn gallu aros gyda'u teuluoedd, ein blaenoriaeth yw eu cadw nhw mor agos at gartref â phosibl. Mae **Strategaeth Trawsnewid Gwasanaeth Preswyl y Gwasanaethau i Blant** yn dwyn ein gwaith digonolrwydd ynghyd: datblygu cartrefi plant nid er elw Rhondda Cynon Taf, cynyddu nifer y rhieni maeth yn lleol, cynyddu llety â chymorth ar gyfer y sawl sy'n 16 oed a hŷn, ac atgyfnerthu comisiynu lleoliadau. Yn 2025/26, fe barhaon ni i weithio gyda darparwyr at ddibenion cynyddu digonolrwydd lleoliadau'n lleol a gofalu bod plant sy'n derbyn gofal yn cael y llety a'r cymorth y mae eu hangen arnyn nhw.

Mae Cam 2 y Strategaeth wedi cael ei werthuso, a chafodd diweddariad ei gyflwyno i'r garfan Craffu a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol fis Ionawr 2026. Ymhlith prif gyflawniadau mae:

- Ailwampio a chofrestru 3 chartref plant, a, recriwtio ar eu cyfer, gan roi cymorth i 11 plentyn yn sgil hyn.
- Gwell data o ran anghenion a chomisiynu llety â chymorth ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal drwy gydweithio'n agosach â chydweithwyr yn y garfan materion tai.
- Gwasanaeth maethu wedi'i ailstrwythuro ac arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru, cadarnhaol, gyda chynnydd ar hyd ystod pob maes datblygu.
- Cymeradwyo 13 rhiant maeth prif ffrwd, newydd.
- Penodi 43 aelod newydd o staff preswyl. Serch hynny, gan fod 23 person wedi gadael, mae'r pwysau ar y gweithlu o hyd.
- Ymgorffori'r Model Therapiwtig, sydd wedi'i wreiddio mewn dull adfer wedi trawma, â chyllid cynaliadwy a pheilot gyda Straen Trawmatig Cymru.
- Lansio peilot Gwarcheidwaeth Arbennig er mwyn ehangu dewisiadau ar gyfer teuluoedd.
- Gostyngiad yn nifer y trefniadau Gweithredu Heb Gofrestru o 9 fis Mawrth 2024 i 3 fis Mawrth 2026.
- Adborth cadarnhaol gan bobl ifainc yng nghartrefi plant Rhondda Cynon Taf, sy'n rhoi gwybod eu bod nhw'n teimlo'u bod yn cael gofal a chymorth da.

"Fe fydda i'n rhan o deulu (enw'r cartref plant) am byth; ac maen nhw ar ben arall y ffôn bob amser." Nododd "mae hynny'n werthfawr iawn, mae symud allan yn rhywbeth sy'n codi ofn, ond dwi i'n gwybod bod pawb yno yn gefn i mi, ac maen nhw am i fi fod y fi gorau posibl"

(Plentyn sy'n symud ar fyw'n annibynnol o Gartref Plant).

"Dw i wrth fy modd yn y cartref, mae pawb yn garedig, mae'n ddigon mawr i fy mrawd ddod i fyw yma hefyd.... gawn ni wneud hynny?"

(Plentyn sy'n symud i Gartref Plant sydd wedi Agor).

"Fe ges i'r pen-blwydd gorau erioed! Fe ges i ddau barti yn y tŷ, un gyda fy ffrindiau o'r stryd ac yna un gyda fy mrawd. Fe wnes i ofyn am feic yn anrheg, ac fe ges i'r un gorau, a gyda'r holl bethau i fynd gydag e. Fe ddywedodd staff mod i'n wych am reidio fy meic, fe gefais i gardiau pen-blwydd a phopeth!" (Plentyn oedd yn dathlu ei ben-blwydd mewn Cartref Plant).

Yn gadarnhaol, mae 71% o'r 586 plentyn sy'n derbyn gofal, yn byw yn Rhondda Cynon Taf (yn agosach at gartref). O blith y 364 lleoliad a ddechreuodd yn 2025/26, roedd 68% yn y sir; 63% oedd y ganran y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd niferoedd lleoli mewn cartrefi plant sydd dan ofal yr awdurdod lleol rhwng 20 Mawrth 2025 a 22 Mawrth 2026; arhosodd niferoedd lleoli mewn cartrefi preifat yn isel ar 8. Gostyngodd nifer y lleoliadau Gweithredu Heb Gofrestru i 3, er bod y niferoedd mewn llety cymorth dwys ar gyfer pobl ifainc sydd ag anghenion ymddygiad heriol, wedi cynyddu.

Astudiaeth Achos: Gofal Preswyl – Llwybr at Sefydlogrwydd

Cyrhaeddodd y plentyn Garn Ingli yn 6 mlwydd oed wedi saith lleoliad blaenorol, a chanddo ofn gwirioneddol o ran gwneud cysylltiadau ac o ran cael ei symud unwaith yn rhagor. Â dim cysylltiadau lleol, a lefelau uchel o orbryder, yn ystod y misoedd cyntaf roedd adegau o wylltineb, colli tymer a gwneud difrod i'r cartref. Roedd ei ddymuniad sef peidio cael plentyn arall yn byw yn y cartref yn adlewyrchiad o'i bryder y byddai person arall yn cymryd ei le; ansefydlogrwydd ailadroddus oedd achos hyn.

Ymatebodd y staff â gofal sy'n ystyriol o drawma, gan greu diogelwch drwy arferion rheolaidd a staffio ar sail cysondeb. Fe wnaethon nhw feithrin ymddiriedaeth drwy wrando, dilysu emosiynau a chynnig opsiynau er mwyn cynyddu ymdeimlad y plentyn o fod â rhagor o reolaeth dros bethau. Dechreuodd y dychwelyd fesul cam at addysg â sesiynau byrion, ac fe arweiniodd asesiad niwroddatblygiad at ddiagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, arweiniodd hyn yn ei dro at gymorth mwy pwrpasol.

Yn raddol, cafodd y plentyn ei gyflwyno i weithgareddau yn y gymuned, megis judo, beicio a mannau chwarae lleol. Er bod rhai profiadau'n anodd, yn araf bach â chymorth staff wrth reoli ffiniau cymdeithasol a straen, fe greodd sawl cyfeillgarwch yn lleol.

Dros amser, fe wellodd presenoldeb yn yr ysgol, ac, ymgysylltu yno. Daeth lefelau'r colli tymer i lawr wrth i'r plentyn ddechrau teimlo'n sefydlog a'i fod yn cael ei werthfawrogi, ac yn y pen draw roedd modd i'r cartref leoli plentyn arall gyda'r plentyn heb ysgogi'r gorbryderon cynharach. Mae'r heriau'n parhau, ond mae'r plentyn yn dangos rhagor o gydnerthedd nawr ac ymdeimlad cryfach o berthyn.

Mae'r achos yma'n dangos gwerth cysondeb, empathi a chymorth ar sail cryfderau. O gael dealltwriaeth o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, daeth eglurder, a dangosodd integreiddio graddol â'r gymuned gapasiti'r plentyn i lunio perthnasoedd iach. Mae'r sylw nawr ar atgyfnerthu hunanwerth, datblygu ar gryfderau personol, ailgyflwyno eitemau arferol yn y cartref gan bwyll bach ac ehangu profiadau cymdeithasol â chymorth dibynadwy.

Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf yw Gwasanaeth Maethu'r Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **Adroddiad Ansawdd Gofal** a gafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Yn unol â'r Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl, yn 2025/26 fe wnaethom ni barhau i weithio i gynyddu niferoedd rhieni maeth yn Rhondda Cynon Taf, a'u sgiliau. Serch hyn, gostyngodd niferoedd rhieni maeth o 248 fis Mawrth 2025 (124 prif ffrwd, 124 gofal gan berthynas) i 243 fis Mawrth 2026 (118 prif ffrwd, 125 gofal gan berthynas). Ar hyn o bryd, mae 364 plentyn yn cael gofal maeth yn yr awdurdod lleol, 357 oedd y ffigwr yma fis Mawrth 2025. Serch hynny, gostyngodd canran y plant a gafodd eu lleoli dan ofal maeth o 76% (466) i 75% (440). Ar y llaw arall, cynyddodd canran y plant gafodd eu lleoli mewn cartrefi plant o 14% (84) i 15% (85) fis Mawrth 2026. Mae hyn adlewyrchu'r prinder sydd o ran teuluoedd maeth, ac effaith hyn yw bod rhai plant yn cael eu lleoli mewn cartrefi plant pan fo lleoliad gofal maeth priodol heb fod ar gael. Mae recriwtio rhagor o deuluoedd maeth yn parhau'n flaenoriaeth o hyd er mwyn diwallu'r angen yma.

Maethu Cymru – Adborth Rhieni Maeth

“Mae ein gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol werth ei phwysau mewn aur! Mae hi'n rhan hanfodol o'r rhwydwaith cymorth. Mae hi'n ein hadnabod ni a'n pobl ifainc mor dda. Mae ei chefnogaeth wedi bod yn aruthrol dros y blynyddoedd wrth iddi weithio ochr yn ochr â ni a'r plant. Does dim sefyllfa yn ormod iddi ac rydyn ni mor lwcus i gael perthynas waith barchus fel hyn. Yn ddi-os mae arnoch chi angen cymorth, a, rhywun i drafod pethau gyda chi pan rydych chi'n maethu. Gyda RhCT rydych chi'n gwybod bod y cymorth yno bob cam o'r daith” Tracy.

“Dydych chi fyth yn mynd i deimlo eich bod chi'n gwneud pethau ar eich pen eich hun pan rydych chi'n maethu gyda RhCT” Matthew.

“Plant hŷn roedden ni wedi gofalu amdanyn nhw'n flaenorol. Pan ddechreuon ni faethu drwy ein Hawdurdod Lleol, dechreuon ni ofalu am ferch iau – rhywbeth nad oedden ni erioed wedi'i wneud o'r blaen. Ond roedd yr help roedden ni'n ei dderbyn yn chwa o awyr iach. Mae ein gweithiwr cymdeithasol wedi bod wrth ben arall y ffôn bob adeg. Ac, mae yna gymuned maethu go iawn yma. Nawr, mae mwy o bobl nag erioed yn rhieni maeth, am fod ein Hawdurdod Lleol yn helpu i ddod â ni ynghyd. Dewis maethu gyda Maethu Cymru RhCT yw'r penderfyniad gorau rydyn ni wedi'i wneud erioed.” Tim a Tor.

Cafodd cynnydd ei wneud ar gael gwared ar elw a gwella digonolrwydd, ond mae pwysau o ran materion gweithredol, galw o ran adnoddau ac amserlenni, wedi arafu cyflymder a graddfa'r newid. Fe fydd cyllid sy'n parhau gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag adnoddau yn y Cyngor a gweithlu â sgiliau, yn hanfodol wrth gyflawni nodau polisi cenedlaethol yn Rhondda Cynon Taf. Yn y tymor byr, bydd gofal preswyl a maeth yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i weithredu drwy economi gymysg o wasanaethau wedi'u comisiynu'n allanol a darpariaeth fewnol. Fe fyddwn ni'n parhau i fynd ati i gael gwell cydbwysedd rhwng dibynnu ar ddarparwyr er elw wrth i wasanaethau maethu a phreswyl lleol ddatblygu, ac, fe fyddwn ni'n adolygu'r camau nesaf unwaith y bydd bwriadau'r darparwyr yn dod yn fwy eglur.

Bydd cynyddu cyflenwad rhieni maeth yn cymryd rhagor o amser a dyma'r prif rwystr o hyd o ran trawsnewid. Yn sgil y prinder yma mae rhagor o blant y mae arnyn nhw angen teuluoedd maeth yn parhau i gael eu lleoli mewn cartrefi plant. Rydyn ni wedi blaenoriaethu'r maes yma ac wedi gwneud buddsoddiad pellach ynddo.

Yn gadarnhaol, fe ostyngodd nifer yr unigolion sy'n gadael gofal a gafodd eu cofnodi'n ddigartref. Serch hynny, mae'r galw am lety â chymorth yn debygol o gynyddu, gan fod 60% o'n plant sy'n derbyn gofal yn 10 oed a hŷn. Fe fyddwn ni'n parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y garfan cartrefi a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynllunio er digonolrwydd.

Addewid o ran Rhianta Corfforaethol

Fis Ebrill 2024, cymeradwyodd y Cabinet Addewid Rhianta Corfforaethol Rhondda Cynon Taf. Drwy lofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, 'Addewid i Gymru', a rhoi'r Addewid leol ar waith, mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ymrwymiad o ran hyrwyddo lles plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal.

Cafodd adroddiad diweddariad ynghylch rhoi ar waith ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol fis Ionawr 2026. Roedd cynnydd wedi'i wneud ar hyd ystod pob un o'r saith blaenoriaeth, ac roedd y rhain ymhlith prif gyflawniadau:

- Fe wnaethon ni gyd-gynhyrchu animeiddiad gyda phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal; roedd ynddo esboniad ynghylch y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ei saith blaenoriaeth a'r modd mae'n parhau i wella deilliannau. Y bobl ifainc a ysgrifennodd y sgrïpt a recordio'r troslais. **Animeiddiad y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.**
- Fe recordiodd aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol fideos byrion hefyd yn eu cyflwyno'i hunain, eu rôl a'r rheswm pam fod y Bwrdd y bwysig iddyn nhw.
- Fe gefnogon ni aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol i gyfarfod â phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau gan y Bwrdd.
- Fe recordion ni bedwar fideo digidol profiad bywyd; yn y rhain roedd pobl ifainc yn rhannu agweddau ar fod yn derbyn gofal, ac fe atgyfnerthodd hyn ein dealltwriaeth ymhellach fyth.

Cyfleoedd Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal.

Fe barhaon ni i roi cymorth i bobl ifainc sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal drwy gynlluniau cyflogaeth, addysg a hyfforddiant sy'n gwella rhagolygon cyflogadwyedd ac o ran cael swyddi.

Cafodd **diweddariad blynyddol** ar Camu i'r Cyfeiriad Cywir a Gofal i Waith ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol fis Ebrill 2026.



Astudiaeth Achos: Rhaglen Swyddi dan Hyfforddiant 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir'

Mae Camu i'r Cyfeiriad Cywir – yn rhaglen hyfforddiant dwy flynedd o hyd â thâl ar gyfer pobl ifainc 16 i 25 oed sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae'n cynnig lleoliadau ar hyd ystod adrannau'r Cyngor, ac mae wedi'i gydlyn gan y Cydlynnydd Hyfforddiant, mae Gweithiwr 14+ yn atgyfnerthu hyn, ac mae Rheolwr Lleoliadau yn goruchwyllo hyn o ddydd i ddydd. Mae'r profiad gwaith a'r hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu drwy'r rhaglen at ddibenion atgyfnerthu datblygu at gyflogaeth amser llawn.

Yn 2025/26, cafodd saith o bobl dan hyfforddiant ei recriwtio ac fe wnaethon nhw gyflawni'r cymwysterau canlynol, neu maen nhw'n gweithio tuag atyn nhw:

- | | |
|--------------------------------------|---------------------------------------|
| 2 x Hyfforddwr Campfa Lefel 2 | 1 x Gofal Plant Lefel 2 |
| 1 x Hyfforddwr Campfa Lefel 3 | 1 x Gofal Cymdeithasol Lefel 2 |

Fis Rhagfyr 2025, fe gynhalion ni Achlysur Dathlu er mwyn dathlu 20 fed Pen-blwydd Camu i'r Cyfeiriad Cywir: **Mae modd i chi weld fideo o'r achlysur yma.**

Astudiaeth Achos: GofaliWaith

Mae'r rhaglen yma'n rhoi cymorth i bobl ifainc 16-25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal, o ran manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae crynodeb o ddeilliannau 2025/26 isod:

Ymgofrestru - **67**

Wedi Sicrhau Cyflogaeth - **7 (3 yn RhCT a 4 yn Allanol)**

Dechrau ar addysg bellach - **13**

Wedi ennill cymhwyster - **14**

Wedi cwblhau Cwrs GofaliWaith - **13**

Profiad gwaith a gwirfoddoli - **8**

Cwrs Cyflogadwyedd yr Haf 2025

Cyflwynodd GofaliWaith ei Raglen Cyflogadwyedd yr Haf yn llwyddiannus mewn partneriaeth a Thref Aberdâr a Heddlu De Cymru. Cwblhaodd 10 person ifanc y rhaglen gan ennill Cymwysterau Gwasanaeth Cwsmeriaid Lefel 1 a datblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol. Fe wnaeth 8 cyfranogwr hefyd ymgymryd ag wythnos o brofiad gwaith gan ennill dealltwriaeth werthfawr o'r gweithle.

Rhaglen Haf GofaliWaith

Llwybr Rhaglen Coleg y Cymoedd

Rhaglen beilot gafodd ei chyflwyno gyda Choleg y Cymoedd i fod yn gymorth i bobl ifainc ail-ymgysylltu ag addysg bellach. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno mewn camau bychain, gam ar y tro fel bod modd i fyfyrwyr ddatblygu dan eu pwysau eu hunain o ran eu hanghenion a'u parodrwydd. Roedd y dull cynhwysol yma'n blaenoriaethu'r sawl sydd bellaf oddi wrth addysg ac sy'n lleiaf tebygol o ail-ymgysylltu ag addysg heb gymorth wedi'i dargedu. Mae'r rhaglen beilot yn gweithredu ar sail model sy'n mynd rhagddo, o gyfnod i gyfnod mewn cyfnodau o 6 wythnos. Yn ystod pob bloc:

- Mynychodd y myfyrwyr y coleg ar sail rhan amser gan gwblhau dwy uned BTEC
- Fe fynychon nhw sesiwn adfyfrio wythnosol GofaliWaith; yr hyn oedd yn y cael y prif sylw'n ystod y rhain oedd hyder, gosod targedau, a, rhwystrau rhag ymgysylltu.
- Wedi pob bloc, roedd modd i fyfyrwyr naill ai barhau am chwe wythnos arall er mwyn cwblhau rhagor o unedau wedi'u hachredu neu adael y rhaglen.
- Cafodd y rhaglen ei chynnal ar sail symud ymlaen o un cyfnod 6 wythnos i'r llall tan ddiwedd mis Mehefin. Fe enillodd y myfyrwyr hynny a ymgysylltodd am 6 mis gymhwyster BTEC llawn gan symud ymlaen at fynychu'r coleg fis Medi.

Ymrestrodd 6 pherson ifanc ac fe lwyddodd y 6 i gwblhau eu hastudiaethau ac maen nhw'n symud ymlaen at y cam nesaf.

Diogelu Plant a Phobl Ifainc

Fe barhaon ni i atgyfnerthu ymyrraeth ac atal cynnar drwy adolygiad ledled y Cyngor. Roedd hyn yn rhan o'r adolygiad: archwilio'r angen cyfredol a'r angen yn y dyfodol, gofalu bod deilliannau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol, a datblygu cynigion ar gyfer cyflawni gwasanaeth mewn modd mwy effeithiol. Cafodd hyn ei argymhell yn yr adolygiad: creu llwybr cymorth clir, hygyrch, ar raddfa, o wybodaeth a chynghor yn y gymuned i ymyrraeth wedi'i dargedu, er mwyn ymateb i amrywiol lefelau o angen, ac atgyfnerthu gwasanaethau mwy cynaliadwy eu natur. Mae'r model wedi'i ddylunio at ddibenion meithrin hunanddibyniaeth, mynd i'r afael ag anfantais, a helpu plant i ffynnu drwy seiliau cryfach ar gyfer iechyd, dysgu a llesiant emosiynol. Mae modd i gamau gweithredu cynnar a'r cymorth cywir ar yr amser cywir leihau effeithiau hirdymor anfantais a gwella iechyd, cyflawniad addysgol a chynhwysiant cymdeithasol.


Argymhelliad arall yn yr adolygiad oedd: creu adolygiad dau-gam o'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Mae'r adolygiad yma ar waith ac y mae disgwyl y bydd yn cael ei gyflwyno yng Ngwanwyn 2026.

Yn 2024/25, o blith yr achosion o gysylltu dim ond 19% a aeth ymlaen i'r cam asesu. Yn ôl ein data, rydyn ni'n ymateb i lefelau uchel o ran angen a chymhlethdod, gyda thrafodaethau am yr hyn sy'n bwysig yn rhan o 98% o asesiadau. O blith y rhain, canlyniad 38% oedd Gwybodaeth, Cyngor neu Gymorth (36% y llynedd), cafodd yr angen am wasanaethau ataliol eu nodi yn achos 37% (6% yn fwy), roedd gofyn cael asesiad mwy cynhwysfawr ar gyfer ar gyfer 19% (6% yn llai), a chafodd pryderon amddiffyn plant eu nodi ar gyfer 6% (7% y llynedd). Mae hyn yn dangos bod y lefelau trothwy yn cael eu rhoi ar waith ar y cam cyntaf yn gyson, a bod sylw parhaus yn cael

ei roi i gymorth ataliol cynnar, lle bo angen.

Yn ôl data'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth roedd lefelau trothwy Gweithdrefnau Diogelu Cymru o ran niwed a cham-drin yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. Er bod lefelau trafodaethau strategol cychwynnol wedi gostwng gan bron i 17% yn 2025/26 gan adlewyrchu ein Model Ymarfer, a, gwneud penderfyniadau cynnar mwy cymesur, datblygodd 74% i fod yn ymholiadau adran 47 yn 2024/25 a 2025/26 fel ei gilydd. Arhosodd lefelau amrywio o ran categorïau niwed, o fewn 3%, sy'n brawf o arfer cyson. Cynyddodd nifer yr ymholiadau Adran 47 sy'n arwain at Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol 4%. Ar yr un pryd gostyngodd nifer y plant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 309 fis Mawrth 2025 i 297 fis Mawrth 2026.

Model Ymateb ar Raddfa: Atal ac Ymyrraeth Gynnar:



Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf

Yn **adroddiad Arolwg Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi**, a gafodd ei gyhoeddi ar 20 Awst 2024, cafodd Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ei raddio'n 'Dda'. Serch hynny, fis Mai 2024, cyn cyhoeddi'r adroddiad, roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi rhoi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghwadrant 3 ('Gofyn Gwneud Gwelliannau') yn sgil materion troseddu difrifol, pobl ifanc yn dod i sylw'r Gwasanaeth am y tro cyntaf, ail-droseddu a chyfraddau o ran bod yn y ddalfa.

Ers hynny, mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd cadarn. Cafodd **adroddiad diweddar** ei gyhoeddi i'r Cabinet fis Rhagfyr 2025.

Yn sgil goruchwyliaeth gryfach o du'r Bwrdd Rheoli drwy is-grwpiau dangosyddion cyflawniad allweddol, gwellodd dealltwriaeth ac arfer, cafodd atebolrwydd ei atgyfnerthu, a chafodd strategaethau eu halinio'n fwy clos â chyflawni ar y rheng flaen.

Atgyfnerthodd hyn hefyd ymateb wedi'i arwain fwyfwy gan ddata, o ran anghymesurolddeb ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed; arweiniodd hyn at ostyngiad o achosion o gadw yn y ddalfa o 8 yn 2023/24 i 1 yn 2025/26.

Atgyfnerthodd gwaith amlasiantaeth oruchwyliaeth o ran gwneud penderfyniadau ynghylch remandio, defnyddio dalfeydd yr heddlu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; roedd protocol cyson o ran y Gorchymyn Materion Ymddygiad Troseddol yn rhan

o hyn. Yn sgil cydweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg, gwellodd ymgysylltu â'r ysgol, gyda chyfran y plant heb fod mewn addysg amser llawn yn gostwng o 93% pan gafodd ei archwilio yn haf 2024 i 27% erbyn mis Mawrth 2026; gostyngodd hyn beryglon yn ymwneud â chamfanteisio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Atgyfnerthodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sicrwydd ansawdd hefyd ar gyfer datrysiadau y tu llan i'r llys, gwellodd gymorth ymarferwyr o ran asesiadau risg, a gostyngodd nifer yr unigolion oedd yn dod i mewn i'r system cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf o 57 yn 2023/24 i 29 yn 2025/26.

Yn dilyn adolygiad cynnydd fis Awst 2025, symudodd Bwrdd Goruchwyliaeth Cyflawniad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i Gwadrant 2, ('Cyflawniad Boddhaol'), gan gydnabod gwelliannau clir a strategol yn unol ag argymhellion yr archwiliad. Mewn llythyr swyddogol, Disgrifiodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y symud yma fel a ganlyn:

“mae'n gydnabyddiaeth o welliant wedi'i gynnal ar hyd ystod dangosyddion allweddol, wedi'i ysgogi gan lywodraethu cryf, arweinyddiaeth strategol a gweithio effeithiol mewn partneriaeth”.

Plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches

Cynyddodd niferoedd y plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, sydd dan ein gofal, o 37 fis Mawrth 2025 (10 o dan 18 oed a 27 dros 18 oed) i 40 erbyn diwedd mis Mawrth 2026 (11 o dan 18 oed a 29 dros 18 oed), drwy Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol y DU a nifer fechan o unigolion yn cyrraedd. Mae'r maes yma'n debygol o fod yn un o angen cynyddol oherwydd bod pwysau geowleidyddol, economaidd ac o ran yr hinsawdd yn parhau i ysgogi mudo.

Gwasanaethau i Oedolion

- Sicrhau bod cynhalwyr di-dâl yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u cefnogi i ddarparu gofal mewn modd sy'n atgyfnerthu eu cydnerthedd, eu hiechyd a'u llesiant.
- Darparu gwybodaeth a chymorth da, clir ac hwylus i bobl ar yr adeg y mae arnyn nhw ei angen, ac yn y modd y mae arnyn nhw ei angen, er mwyn iddyn nhw aros yn iach.
- Sicrhau bod ein sgysiau cymorth yn galluogi pobl i gael mynediad at adnoddau cymunedol a theuluol, yn ogystal â gwasanaethau a gomisiynir, lle bo'n berthnasol, er mwyn eu gwneud yn fwy annibynnol a chyflawni'r deilliannau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Hyrwyddo opsiynau taliadau uniongyrchol a gwella'r prosesau ar gyfer gwneud hynny, gan alluogi pobl i wneud y mwyaf o'u dewis a rheolaeth ynghylch sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.
- Gwneud yn siŵr bod gan bobl sydd ag anableddau dysgu fynediad at lety â chymorth sy'n eu galluogi i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl yn y gymuned.
- Cynyddu a gwella ymatebion o ran opsiynau llety ar gyfer pobl hŷn.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y garfan Gwasanaethau i Blant i sicrhau bod y trefniadau pontio i bobl ifainc a'u rhieni/cynhalwyr i Wasanaethau i Oedolion yn brofiad cadarnhaol sy'n cefnogi dilyniant tuag at annibyniaeth ac ymreolaeth yn briodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithredu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig sy'n gallu cydlynu ymagwedd effeithiol a di-dor, naill ai fel ymateb brys i salwch aciwt neu argyfwng neu i reoli iechyd cronig a hirdymor ac anghenion gofal cymdeithasol. Yn gysylltiedig â hyn mae dull integredig o gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.
- Darparu gwasanaeth asesu effeithiol i gynorthwyo pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Lle mae angen rhestrau aros am asesiad, byddwn ni'n adolygu'n barhaus yn unol â meini prawf risg y cytunwyd arnyn nhw ac yn sefydlu prosesau uwchgyfeirio i ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ac sydd â'r risg fwyaf o niwed.
- Cyflawni ein Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Oedolion a chynlluniau gweithredu ategol

Gwasanaethau i Blant

- Bydd ein Strategaeth y Cymorth Cywir, Amser Cywir, Lle Cywir ynghyd â rhanddeiliaid yn ailddylunio ein ymateb cam cyntaf; mae hyn at ddibenion gofalu ei fod yn wasanaeth mwy cynaliadwy ag ymateb sy'n canolbwyntio'n gryf ar atal.
- Strategaeth Gweithlu 2021-2024 – bydd gweithlu'r Gwasanaethau i Blant yn uchel ei gymhelliant, yn ymgysylltu ac yn cael ei werthfawrogi; bydd gan staff y gallu, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.
- Gwasanaethau Atal yr adran Plant sy'n Derbyng Gofal – Bydd yn targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel ar eu cyfer sy'n mynd i ofal.
- Gofalu bod pob person ifanc y mae arno angen gofal preswyl yn derbyn gofal mewn lleoliad o safon uchel yn agos at ei gartref. Bydd modd i'r bobl ifainc ffynnu yn y lleoliad, gan dderbyn gofal gan garfan sefydlog sydd â chefnogaeth gadarn. Bydd y garfan yn cynnwys staff medrus sydd â chymeriad gwydn. Mae 2 faes sy'n dibynnu ar ei gilydd yn rhan o'r gwaith: Maethu Cymru a Llety ar Gyfer y Sawl sy'n Gadael Gofal a Strategaeth Gymorth.





GWYBODAETH ARALL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026

a) Arolygon ac adolygiadau

Beth yw barn ein harolygwyr ynghylch ein Gwasanaethau i Oedolion?

- **Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaeth Cymorth@Gartref (Adsefydlu, Ymatebwyr Symudol a Gofal Ychwanegol). Wedi'i gynnal fis Rhagfyr 2025, canfu Arolygiaeth Gofal Cymru:**

Mae llesiant yn ardderchog oherwydd mae pobl yn cyflawni deilliannau rhagorol ac yn byw'r bywyd maen nhw'n ei ddewis. Mae gweithio aml-asiantaeth heb ei ail yn gymorth i bobl gyflawni'r deilliannau yma. Mae gofal a chymorth yn ardderchog, gyda phobl a theuluoedd yn cael profiadau hynod gadarnhaol gan wasanaethau, sy'n gwella eu bywydau. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth, rheoli heintiau a diogelu. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn ardderchog gan fod gwasanaethau'n cael eu harwain yn arbennig o dda, gyda threfniadau llywodraethu hynod effeithiol ar waith. Mae carfanau staff wedi'u hyfforddi'n dda ac mae gyda nhw'r arbenigedd, sgiliau a chymwysterau angenrheidiol. Maen nhw'n cael cymorth da gan y carfanau rheoli ac maen nhw'n cael eu recriwtio'n ddiogel.

Chafodd yr un maes ei nodi'n un yr oedd gofyn gwneud gwelliannau ynddo, a chafodd yr un hysbysiad cam gweithredu blaenoriaeth ei gyflwyno.

- **Arolwg ar y Cyd Arolygiaeth Gofal Cymru/ ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Carfan Iechyd Meddwl Cymuned Taf Elái Yn ôl yr Arolwg a gafodd ei gynnal fis Ionawr 2026:**

Mae Carfan Iechyd Meddwl Taf Elái yn cynnig gofal tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda staff yn arddangos ymwybyddiaeth gref o anghenion cymdeithasol, diwylliannol, iaith ac o ran amrywiaeth, yr unigolyn. Mae'r garfan yn gweithredu'n effeithiol drwy un pwynt mynediad, asesiadau amserol a llwybrau y tu allan i oriau sydd wedi'u sefydlu. Mae ei strwythur, sydd wedi'i ymgorffori, a'i gyd-leoli, yn atgyfnerthu cysondeb a gweithio amlasiantaeth wedi'i gydlynw, ac roedd y rhan fwyaf o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu nodau a chryfderau pobl. Yn ôl y defnyddwyr gwasanaeth a ymatebodd i'r arolwg, roedd eu profiadau'n hynod gadarnhaol; roedden nhw'n disgrifio staff fel a ganlyn: gofalgar, cefnogol ac ymatebol.

Serch hynny, cafodd sawl maes ei nodi yr oedd gofyn ei wella. Doedd eiriolaeth ddim yn cael ei gofnodi'n gyson nac yn glir mewn cofnodion gofal, er mor bwysig yw hyn. Roedd amrywiaeth hefyd o ran y modd roedd gofalgwyr yn cofnodi asesiadau; yr awgrym yn sgil hyn oedd ei bod yn bosibl bod rhai anghenion heb gael y sylw gofynnol. Mae twf sylweddol o ran atgyfeiriadau'n ymwneud â'r Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd wedi cynyddu'r pwysau ar gapasiti clinigol a gweinyddol fel ei gilydd, gan effeithio ar y modd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflenwi. Yn ogystal â hynny, doedd monitro o ran iechyd corfforol a chofnodion ynghlwm â hynny, ddim yn ddigon cadarn, gan gynnwys ar gyfer unigolion oedd yn wynebu perygl lefel uwch, ac yn sgil hyn roedd pryderon posibl ynghylch diogelwch.

Bydd cynllun gwella at ddibenion mynd i'r afael â'r meysydd yma ar gyfer gwella'n cael eu rhoi ar waith yn 2026/27.

Beth mae ein harolygwyr yn ei ddweud am ein Gwasanaethau i Blant?

- **Roedd y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau yn destun argymhelliad mewn arolwg yn dilyn ymweliad Gwiriad Gwelliannau â Gwasanaethau i Blant Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr fis Mehefin 2025.**

Mae Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg yn gyfrifol am Ben-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf. Rhaid i'r gwasanaeth ddarparu cymorth mewn argyfwng i oedolion bregus, plant mewn angen a'u teuluoedd. Rhoddodd partneriaid ac ymarferwyr wybod am heriau o ran bod a niferoedd digonol o staff, cadw cofnodion ac arfer. Dylai arweinwyr weithio gyda phartneriaid rhanbarthol er mwyn adolygu'r trefniadau yma a hyrwyddo gwelliannau mewn modd amserol.

Bydd cynllun gweithredu Gwelliannau er gwella'r gwasanaeth ar gael at ddibenion mynd i'r afael â'r argymhelliad gafodd ei gyflwyno, a bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu gan Garfan Llywio'r Bartneriaeth Ar Ddyletswydd Ar Gyfer Argyfyngau.

- **Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru: Gwasanaeth Mabwysiadu'r Fro y Cymoedd a Chaerdydd.** Y Gwasanaeth yma yw'r cydweithrediad rhanbarthol ar gyfer mabwysiadu; mae'n gwasanaethu pobl sy'n byw ym Mro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Canfu arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru a gafodd ei gynnal fis Rhagfyr 2025: Llywodraethu cryf, arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac asesiadau cynhwysfawr o'r sawl sy'n mabwysiadu. Ar yr un pryd, mae gwelliannau angenrheidiol yn cael eu nodi o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, cymorth cyfartal o ran mabwysiadu a goruchwyliaeth gryfach o ran ymweliadau sydd heb eu trefnu o flaen llaw. Bydd cynllun gwelliannau ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd y mae gofyn eu gwella, ar waith, a bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu gan y Bwrdd Rheoli Rhanbarthol.

b) Cwynion a Sylwadau

Canmoliaeth a Chwynion am y Gwasanaethau i Oedolion

Mae proses cwynion a chanmoliaeth, statudol, y Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodd o alluogi pobl a'u teuluoedd sy'n cael cymorth, i roi adborth. Yn y tabl isod mae crynodeb o'r cwynion a'r canmoliaethau a ddaeth i law eleni a thros y tair biynedd flaenoroi.

	2023/24	2024/25	2025/26
Nifer y cwynion a ddaeth i law	74	79	79
Nifer y canmoliaethau ddaeth i law	90	81	129

Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion sy'n cyrraedd gofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu gwneud gan gynhalwyr neu berthnasoedd ar ran y person sy'n cael y cymorth. Er bod hyn heb ei gofnodi'n swyddogol, mae'n ymddangos fel petai nifer yn ymwneud ag oedolion y mae'n bosibl bod eu hoedran, anabledd neu alluedd meddyliol yn nodweddiadol gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Garfan Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion, a'r Gwasanaethau i Oedolion yn gweithio i ofalu bod anghenion unigolion yn cael eu trin a'u trafod drwy gydol y broses gwynion, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ac atgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch diogelu drwy'r llwybr priodol.

Fel yn ystod blynyddoedd diweddarach, mae nifer y cwynion sy'n cyrraedd y Gwasanaethau i Oedolion wedi parhau'n isel o'i chymharu â niferoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ac roedden nhw'n gyson â blynyddoedd diweddar. O'i gymharu, cynyddodd cysylltiadau â'r Garfan Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion, gan gyrraedd 119 yn 2025/26. Mae'r cysylltu yma'n atgyfnerthu datrysiadau cynnar, gyda 100% o'r materion yn cael eu datrys y tu allan i'r broses gwneud cwyn swyddogol.

Cynyddodd nifer y canmoliaethau hefyd yn 2025/26; rhoddodd hyn ddealltwriaeth ynghylch arfer da a disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn 2025/26 cyflwynodd y Gwasanaethau i Oedolion sesiynau adfyfrio ar arfer er mwyn trin a thrafod materion oedd wedi'u codi drwy gwynion Cam 2. Cafodd y sesiynau yma eu cynnal ledled y gwasanaeth, ac mae hyfforddiant yn cael ei ddatblygu at ddibenion rhoadru dysgu i sylw staff y rheng flaen. Ymhlith y pynciau gafodd sylw mae hunan-esgeuluso a chelcio, tuedd wybyddol, ac effaith gweithdrefnau'r Llys Gwarchod ar deuluoedd.

Mae materion yn ymwneud â chostau gofal cymdeithasol yn ganolbwynt cwynion o hyd, gyda pherthnasoedd yn herio penderfyniadau terfynol y Llys. Mae modd i oedi o ran asesiadau ariannol achosi rhwystredigaeth ymhlith teuluoedd, ac mae gofyn gwella cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus yn y maes yma. Er mwyn darparu proses gliriach ar gyfer heriau ariannol, mae polisi apelio wedi cael ei ddatblygu gyda Chynghorau cyfagos. Bydd hyn yn rhoi rhagor o eglurder i staff y Cyngor a theuluoedd o ran sut mae mynd i'r afael â heriau'n ymwneud â gwasanaethau y mae modd codi tâl amdanyn nhw.

Canmoliaeth a chwynion am y Gwasanaethau i Blant

Mae proses statudol cwynion a chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn galluogi plant a phobl ifainc a'u teuluoedd a gwarcheidwaid i roi adborth. Yn y tabl isod mae crynodeb o'r cwynion a'r canmoliaethau ddaeth i law eleni a thros y tair blynedd flaenorol.

	2023/24	2024/25	2025/26
Nifer y cwynion a ddaeth i law	89	83	79
Nifer y canmoliaethau ddaeth i law	55	43	59

Fel yn achos y Gwasanaethau i Oedolion, roedd gostyngiad bach yn nifer y cwynion a gyrhaeddodd y Gwasanaethau i Blant yn 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Serch hynny, cynyddodd nifer y cysylltiadau â'r Garfan Adborth Cwsmeriaid, Ymgysylltu a Chwynion i 127, gyda 98% o faterion yn cael eu datrys y tu allan i'r broses gwynion swyddogol. Cynyddodd nifer y canmoliaethau hefyd.

Rhieni neu warcheidwaid a gyflwynodd y rhan fwyaf o'r cwynion, gyda dim ond dau sylw gan blant neu bobl ifainc. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu eiriolaeth effeithiol a datrys yn gynnar, ond byddwn yn trin a thrafod rhagor ar y modd y gallai'r Garfan Adborth gan Gwsmeriaid gyrraedd pobl, yn enwedig y sawl sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir.

Amlygodd y cwynion feysydd y mae gofyn eu gwella er mwyn bod o gymorth i blant a'u teuluoedd. Dyma'r prif themâu:

- Gweithio gyda niwroamrywiaeth.
- Mynd i'r afael â chwynion mewn modd amserol.
- Bod mewn cysylltiad â rhieni a bod wedi dieithrio oddi wrthi rieni.

Cafodd un gwyn ei harchwilio gan yr Ombwdsmon, gan arwain at welliannau o ran y modd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch rhoi llety i bobl ifainc pan fo pryderon o ran diogelu yn y teulu. Fe ysgogodd hefyd drafodaeth adfyfyriol ar hyd ystod gwasanaethau, felly hefyd adolygiad o brosesau cyfredol.

c) Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth

'Gweithio Gyda'n Cymunedau' – Cynllun Corfforaethol y Cyngor

Adroddiad Cyflawniad y Cyngor – 31 Mawrth 2025

Hunan-Asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2024/25

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024/25

d) Rhestr termau

Term/Acronym	Disgrifiad
Ailalluogi / Adsefydlu / Gofal interim	Gelwir y gofal tymor byr hwn weithiau yn ofal canolraddol, neu ôl-ofal. Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau bob dydd, fel coginio prydau bwyd a golchi. Mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth hirdymor.
Gofal Cartref / Gwasanaeth Cymorth Cartref	Mae gofal cartref yn cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref person ei hun. Gall gynnwys cymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd a materion gofal iechyd penodol i'r henoed.
Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio	Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety a gofal personol a chymorth 24 awr i'r bobl hŷn ac eraill a allai ei chael yn anodd rheoli bywyd bob dydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd. Fodd bynnag, y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu darparu lefel uwch o ofal. Mae gan gartrefi nyrsio nyrsys cymwysedig ar y safle ddydd a nos i ddarparu gofal meddygol yn ôl yr angen ac mae cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Term/Acronym	Disgrifiad
Plant â phrofiad o fod mewn gofal	Mae profiad o fod mewn gofal yn derm ymbarél a all olygu plant / pobl ifainc sy'n: • Derbyn gofal gartref drwy Orchymyn Gofal • Derbyn gofal oddi cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad â gofal perthynas (yn derbyn gofal neu heb ofal) • Wedi derbyn gofal yn flaenorol, lle ar ryw adeg yn eu bywydau maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod. Efallai na fydd y plentyn / person ifanc erioed wedi derbyn gofal ffurfiol.
Gadawr Gofal	Yng Nghymru, mae pobl sy'n gadael gofal yn unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers eu bod yn 14 oed ac sydd wedi gadael gofal ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. Bwriedir i'r cymorth a ddarperir i'r rhai sy'n gadael gofal fod yn gyfwerth â'r hyn y gallai plentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl yn rhesymol gan ei rieni.
Plant sy'n derbyn gofal	Nid yw plant a phobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' yn byw gyda'u rhieni, naill ai dros dro neu'n barhaol, oherwydd am lawer o resymau ni allant ofalu amdanynt yn ddiogel.
Diogelu	Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag cam-drin neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i nodi'r arwyddion a'r peryglon.
Gweithdrefnau Diogelu Cymru	Maent yn manylu ar y rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod. Mae'n darparu geirfa ddefnyddiol o dermau diogelu: <u>Diogelu Cymru</u>.
<u>Fframwaith Perfformiad a Gwellu: Mesur data gweithgarwch a pherfformiad</u>	Mae hyn yn cyflwyno fframwaith o fetrigau sy'n cwmpasu oedolion, plant a chynhalwyr y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ynghyd â data dienw ar lefel person a data cyfanredol ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n dweud y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain hefyd er mwyn deall yn well sut mae darparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn ôl blaenoriaethau lleol.

Rhestr termau

Term/Acronym	Disgrifiad
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	AGC yw'r rheoleiddiwr darparwyr gofal cymdeithasol. Maent yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ar gyfer llesiant pobl Cymru.
Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)	GCC yw rheoleiddiwr y gweithlu. Fel rhan o hyn maent yn cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae gan GCC gylch gwaith gwella hefyd, lle byddant yn rhannu arfer da, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill.
Preswlydd / Dinesydd	Person y mae ei breswylfa arferol o fewn ffin yr awdurdod lleol.
Defnyddiwr Gwasanaethau	Person sy'n cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol.
Cynllun Cysylltu Bywydau / Lleoli Oedolion	Mae Cynlluniau Cysylltu Bywydau – a elwir hefyd yn lleoliadau oedolion – yn ffordd deuluol o gefnogi anghenion tai person agored i niwed. Gall y math hwn o lety â chymorth fod y garreg gamu ddelfrydol ar y ffordd i fyw'n annibynnol. Cyfeirir at y trefniant rhannu hwn yn aml fel 'cysylltu bywydau'.
Taliadau Uniongyrchol	Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu rhoi i unigolion er mwyn eu galluogi i dalu am eu gofal eu hunain. Maent yn ffordd y gall awdurdodau lleol helpu i ddiwallu angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu angen cynhaliwr am gymorth. Maent yn ffordd i bobl drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain.
Byw/Llety â Chymorth	Mae llety byw â chymorth yn fath o dai sy'n darparu gofal personol, cymorth neu oruchwyliaeth i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract tai. Gall y llety gael ei rannu neu'n sengl, yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau'r preswylwyr.

Rhestr termau

Term/Acronym	Disgrifiad
Cynhaliwr Di-dâl	Mae cynhaliwr di-dâl yn rhywun sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion sy'n cael eu heffeithio gan anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, gwendid neu gamddefnyddio sylweddau. Nid oes angen i'r cynhaliwr fod yn byw gyda'r person y mae'n gofalu amdano.
Cynhaliwr Ifanc	Mae cynhaliwr ifanc yn gynhaliwr di-dâl sydd hyd at 18 oed. Efallai y bydd yn darparu gofal a chymorth i rieni, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu.
Cynllun Gofal a Chymorth	Mae cynllun gofal a chymorth yn ddogfen sy'n nodi'r hyn sydd wedi'i drafod yn ystod asesiad anghenion gofal cymdeithasol a beth sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad i hynny. Mae'n gynllun y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei baratoi a'i gynnal o dan adran 54 (1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Cynllun Cymorth i Gynhalwyr	Os oes gan gynhalwyr di-dâl anghenion sy'n gymwys ar gyfer cymorth, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny a'u diwallu drwy ddarparu 'Cynllun Cymorth i Gynhalwyr.' Pan fo anghenion cymwys am gymorth yn cael eu nodi ar gyfer y cynhaliwr di-dâl, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu.
Eiriolaeth	Mae eiriolwyr mewn gofal cymdeithasol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (y cyngor lleol) a'r GIG. Maent wedi'u hyfforddi i helpu pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu barn a'u dymuniadau, a helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn fathau o gymorth sy'n anelu at wella deilliannau i bobl neu atal angen neu risg gynyddol. Cyfeirir atynt weithiau hefyd fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol.
Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014	Y Rheoliadau a gyflwynodd broses dau gam newydd i ymdrin â chwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n dod â'r broses ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a Gweithdrefn Gwynion y GIG Gweithio i Wella.

Term/Acronym	Disgrifiad
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn weithdrefn gyfreithiol yn y DU sydd wedi'i chynllunio i amddiffyn pobl agored i niwed mewn lleoliadau gofal. Mae'n berthnasol i oedolion sydd heb y gallu meddyliol i roi cydsyniad i'w trefniadau gofal ac sydd angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae DoLS yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu cydsynio i'w gofal yn cael eu diogelu pan fydd eu trefniadau yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Bydd yn cael ei ddisodli gan Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn y dyfodol.
Mwy Na Geiriau	Mae Mwy Na Geiriau yw strategaeth a chynllun cyflawni i anelu at wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.
Gofal ychwanegol	Darparu pecyn gofal cartref i unigolyn sy'n byw mewn â chymorth/llety â chymorth.
Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol	Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hiliaeth a gwneud 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy' i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru. Nod y cynllun yw gwneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030.
Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh)	Cyfeirio at gysylltiadau ac atgyfeiriadau – cydsyniad a lefel y wybodaeth a gofnodir – cysylltu ag asesiad cymesur.
Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Mae NEET yn sefyll am "Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant". Mae'n cyfeirio at bobl ifainc nad ydynt yn ymwneud ag addysg na hyfforddiant galwedigaethol nac mewn cyflogaeth â thâl. Gall unigolion NEET brofi anfantais gymdeithasol ac economaidd.
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith sy'n anelu at wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a chynhalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
micro-fentrau	Mae micro-fentrau yn ddarparwyr gofal bach, wedi'u lleoli yn y gymuned, sydd wedi'u dylunio er mwyn ategu gofal traddodiadol yn y cartref. Maen nhw'n cynnig gofal wedi'i deilwra, gan gynyddu'r dewis a'r dulliau rheoli gofal ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal a darparu cyfleodd i entrepreneuriaid lleol weithio yn eu cymunedau.